


# Addysg grefyddol

## Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed



**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Addysg grefyddol

## Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed

**Cynulleidfa** Penaethiaid; uwch reolwyr; athrawon; cyrff llywodraethu; colegau; darparwyr hyfforddiant; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; CYSAGau; awdurdodau esgobaethol eglwysi; undebau athrawon; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg grefyddol.

**Trosolwg** Mae'r canllawiau hyn yn ategu gweithredu'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau ar berthnasedd a budd y sgiliau a'r wybodaeth y gallai pobl ifanc eu caffael trwy addysg grefyddol 14–19 ac mae'n cynnwys astudiaethau achos o'r dulliau cyflwyno posibl. Ni ddylid edrych ar y canllawiau hyn na'u cyflwyno heb ystyried meysydd eraill, ond yn hytrach dylid ystyried y Llwybrau Dysgu a'r cwricwlwm ehangach a gynigir yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg.

**Camau i'w cymryd** I adolygu darpariaeth addysg grefyddol i ddysgwyr 14–19 a chodi safonau ymhellach er mwyn cefnogi gweithredu'r Llwybrau Dysgu, cyfoethogi ystod o gymwysterau a darparu dull o weithredu themâu trawsbynciol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig** *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*; *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*; *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig*; *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

75% wedi'i ailgylchu recycled
Cyf: CAD/GM/0046
ISBN: 978 0 7504 4998 4
A-EAC-02-01-qA749729/1/PG
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2009
WG30202

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Gwerth addysg grefyddol 14–19** | **4** |
| **Manteision addysg grefyddol 14–19** | **6** |
| **Ennyn diddordeb oedolion ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain** | **7** |
| **Sicrhau darpariaeth addysg grefyddol 14–19 o safon uchel** | **10** |
| **Addysg grefyddol a'i chyfraniad at y Llwybrau Dysgu 14–19** | **12** |
| **Dulliau cyflwyno posibl ar gyfer darparu addysg grefyddol 14–19** | **14** |
| **Astudiaethau achos yn enghreifftio ystod o ddulliau cyflwyno** | **16** |
| Addysg grefyddol statudol trwy ddewisiadau arholiad | 17 |
| Gwersi addysg grefyddol wedi'u hamserlennu | 22 |
| Wythnos drawsgwricwlaidd | 28 |
| Rhaglen gyfoethogi drawsgwricwlaidd | 31 |
| Rhaglen gyfoethogi'r cwricwlwm ehangach | 36 |
| Gwersi tiwtorial y Craidd Dysgu wedi'u hamserlennu | 38 |
| Cynhadledd undydd flynyddol | 41 |
| Cynhadledd flynyddol i gefnogi dewisiadau arholiad | 47 |
| Cymhwyster Bagloriaeth Cymru | 49 |
| Sgiliau Allweddol | 55 |
| Dyfarniad ASDAN (Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynllun Dyfarnu) | 61 |
| Encilion a chynadleddau | 64 |
| Gwaith elusennol ac ymweliadau | 66 |
| Defnyddio eclips y BBC *Addysg Grefyddol: Addysg Ryfeddol* | 69 |
| Siart astudiaethau achos enghreifftiol | 72 |
| **Atodiad 1** | **75** |
| Addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16 | |
| **Atodiad 2** | **76** |
| Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol | |
| **Cydnabyddiaethau** | **82** |

# Cyflwyniad

Mae addysg grefyddol 14–19 oed yn darparu cyfleoedd cyffrous i bobl ifanc ystyried cwestiynau perthnasol, cyfoes a heriol sy'n cael effaith ar ein bywydau ni i gyd: cwestiynau am ysbrydolrwydd, ystyr a phwrpas, cydraddoldeb ac amrywiaeth, awdurdod, dinasyddiaeth fyd-eang a chynaliadwyedd.


Mae addysg grefyddol yn addysgu'r dysgwyr am brif grefyddau'r byd er mwyn darparu sail ddamcaniaethol, athronyddol a moesegol ar gyfer myfyrio ac ymateb sy'n dangos trugaredd a pharch. Mae'n helpu pobl ifanc i fod yn fwy hyddysg ynghylch traddodiadau, arferion a gwerthoedd ymlynwyr crefyddol yn ein cymdeithas ac mewn diwylliannau ledled y byd; gan felly hybu dealltwriaeth well a mwy o gydlyniad cymunedol.

Mae'r canllawiau newydd hyn yn dangos sut y gall addysg grefyddol ysgogi ac ennyn diddordeb pobl ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain, mewn ffordd hyblyg i helpu gweithredu'r Craidd Dysgu mewn ysgolion. Mae'r Craidd Dysgu yn adnabod y sgiliau, yr wybodaeth, y ddealltwriaeth, y gwerthoedd a'r profiadau y mae eu hangen ar bob dysgwr i'w paratoi ar gyfer dysgu pellach, cyflogaeth a boddhad personol o fewn ein cymdeithas ddwyieithog ac amrywiol.

Mae'r ddogfen yn cynnig amryw o ddulliau gweithredu trwy gyfrwng astudiaethau achos arloesol sy'n dangos sut mae modd cyfuno rhannau o'r Craidd Dysgu ac addysg grefyddol statudol fel eu bod yn cydweddu â'i gilydd. Daw'r astudiaethau achos o amrywiaeth eang o ysgolion ledled Cymru. O ddefnyddio'r astudiaethau achos mewn amryw gyfuniadau, gellir eu defnyddio i fodloni'r gofyniad cyfreithiol i ddarparu addysg grefyddol ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed.

# Gwerth addysg grefyddol 14–19

## Gwerth addysg grefyddol fel rhan o fyd gwaith a dysgu gydol oes




I fi, un o werthoedd mwyaf addysg grefyddol yw'r ffaith trwy ddysgu a deall am grefyddau gwahanol y byd, daw dealltwriaeth a goddefgarwch a all ond elwa cyd fyw a'i cyd-ddyn.

*Matthew Rhys – Actor*

Fel un sy'n gweithio i ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae'n hanfodol bod yr holl raglenni yn cynrychioli'r gymuned gyfan, ac nid dim ond adrannau arbennig ohoni. Mae'r gwersi addysg grefyddol a gefais yn yr ysgol yn golygu fy mod yn ymwybodol o'r amrywiaeth fawr o grwpiau crefyddol sy'n bodoli.

*Newyddiadurwr Darlledu BBC*





Ni fu addysg grefyddol erioed mor berthnasol. Wrth i Brydain fod yn fwy ethnig amrywiol, yn fwy diwylliant gyfoethog ac yn fwy amrywiol ei safbwyntiau crefyddol, y mwyaf y byddwn yn gweld problemau cymdeithasol a achosir gan anwybodaeth ac anoddefgarwch. Addysg grefyddol... a all fynd i'r afael â'r problemau hyn, trwy rymuso pobl ifanc â dealltwriaeth o wahanol hiliau a chrefyddau, a'u derbyn. Mae'n bwysig sicrhau nad yw barn y genhedlaeth i ddod yn cael ei llunio dim ond gan yr hyn y maen nhw'n ei ddarllen yng ngwasg tabloid Prydain...

*Athrawes*





Fel bydwraig mae mor bwysig gallu gwrando ar gleientiaid pan fyddan nhw'n mynd trwy ddigwyddiadau sy'n newid eu bywydau, fel geni plentyn. Mae addysg grefyddol yn dysgu am y rhinweddau sydd eu hangen i wneud y gwaith yma yn dda, sef amynedd, dealltwriaeth a charedigrwydd. Mae'r Rheol Aur yr un mor berthnasol yn yr ysbyty ag y mae unrhyw le arall ar y blaned.

*Bydwraig*

Fel heddwas, mae gwybodaeth am grefydd wedi bod o gymorth i helpu asesu anghenion y gwahanol unigolion rwy'n cwrdd â nhw yn fy amgylchedd gwaith. Mewn cymdeithas amlddiwylliannol mae'n hanfodol bod sefydliad fel yr heddlu yn llwyr werthfawrogi gwahanol gredoau a'u harferion cysylltiedig. Mae fy ngwersi addysg grefyddol yn y chweched dosbarth wedi fy helpu'n fawr iawn.

*Heddwas*





Bydd mathemateg, ffiseg a chemeg yn helpu person ifanc i ddeall y byd o'i gwmpas. Bydd addysg grefyddol... yn ei helpu i ddeall y bobl y bydd rhaid iddyn nhw rannu'r byd â nhw. Bydd mabwysiadu ymagwedd o amrywiaeth yn allweddol i'r ymwybyddiaeth hon.

*Swyddog cyfiawnder ieuenctid*

Mae addysg grefyddol yn bwysig oherwydd ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n gynyddol amrywiol ac mae angen i bobl ifanc heddiw a'r cenedlaethau i ddod ddysgu ei dathlu yn hytrach na'i 'goddef'. Mae anwybodaeth yn magu ofn, felly meithrin dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc o ddiwylliannau a chrefyddau eraill yw'r unig ffordd o chwalu'r rhwystrau cymdeithasol sy'n achosi rhwygiadau diangen o'r fath, a hyd yn oed gwrthdaro rhwng pobl o bob oedran ym Mhrydain heddiw.

*Gweithiwr elusen*



# Manteision addysg grefyddol 14–19

**Manteision cyflogaeth**

**Manteision personol**

Mae addysg grefyddol o safon yn datblygu:

- sgiliau trosglwyddadwy
- dysgwyr mwy effeithiol
- dysgwyr sy'n dadansoddi eu gwerthoedd
- dealltwriaeth well o'ch hunan ac eraill
- ymdeimlad o fod yn gyfrifol am eraill
- dinasyddion sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth
- gwybodaeth o'r materion sy'n wynebu'r gymuned gan gynnwys agweddau moesegol a moesol
- dinasyddion sy'n gallu gofyn cwestiynau ystyrlon am yr hyn sy'n bwysig ac yn werthfawr mewn bywyd gan gynnwys cyfraniad yr ysbrydol
- dysgwyr sy'n gwerthfawrogi ac yn cyfrannu at gydlyniad cymdeithasol.

**Manteision cymdeithasol**

**Manteision byd-eang**

# Ennyn diddordeb oedolion ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain

## Mae addysg grefyddol yn:



### Cyfoethogi

Mae'r pwnc addysg grefyddol yn bwysig i ddysgu i bobl ifanc yn yr ysgol oherwydd mae'n dysgu pobl am syniadau a safbwyntiau pobl o grefyddau eraill, felly fe fydd ganddyn nhw fewnolwg a pharch tuag at grefyddau eraill. Hefyd, mae dysgu pobl ifanc am y pwnc addysg grefyddol yn ein dysgu ni am foesau a gwerthoedd a sut i barchu eraill. Heb grefyddau a gorchmynion fe fydd anhrefn llwyr yn y byd.

### Ysgogi

Ie, dylen ni wneud addysg grefyddol ym Mlwyddyn 12 oherwydd rydych yn gwybod beth sy'n digwydd yn y byd ac mae'n stopio chi rhag meddwl bod dim pwynt mewn bywyd. Hefyd, rwy'n mwynhau trafod pethau sy'n bwysig i ni a'r siaradwyr sy'n dod i'r ysgol i esbonio sut mae crefydd wedi newid eu bywydau.





### Cyffroi

Rwy'n teimlo'n gyffrous pan fyddwn ni'n cael trafodaethau dosbarth am y cwestiynau mawr fel pam ydym ni yma; pam bod cyfrifoldeb arnom i ofalu am eraill a'r blaned; pam bod drygioni yn y byd. Mae ein hathro bob amser yn ychwanegu dimensiwn newydd i'n trafodaethau ac yn herio ein syniadau.

### Ennyn diddordeb

Mae dysgu am grefyddau gwahanol a'u rhesymau dros fyw bywydau gwahanol i ni yn ein dysgu ni i barchu syniadau eraill a chyd-fyw gyda safbwyntiau gwahanol. Trwy astudio dwy ochr bob dadl bydd gweithio â chyflogwyr a chydweithwyr yn y dyfodol yn heddychlon ac yn hawdd.





## Ysbrydoli

Rwy'n cael fy ysbrydoli pan fydda i'n clywed am bobl sydd wedi aberthu eu hunain mewn rhyw ffordd i helpu pobl eraill. Rwy'n cael fy ysbrydoli gan bobl sy'n parhau i fod yn obeithiol pan fyddan nhw'n wynebu dioddefaint ofnadwy. Mae addysg grefyddol yn rhoi cyfle i mi ofyn y cwestiynau mawr ac mae'r atebion yn gwneud i mi feddwl yn ddwfn am fywyd. Rwy'n credu bod addysg grefyddol yn ysbrydoli meddyliau ifanc.

## Archwilio



Mae astudio addysg grefyddol wedi helpu fi i feddwl am y byd rydyn ni'n byw ynddo. Mae'n teimlo fel lle llawer mwy nag yr oedd pan oeddwn i ym Mlwyddyn 11! Rwy wedi cael cyfle i astudio barn a safbwyntiau pobl o wahanol ddiwylliannau. Trwy'r cynadleddau addysg grefyddol rwy'n gwybod am y materion sy'n effeithio ar gymdeithas ac maen nhw wedi fy helpu i feddwl sut y galla i gyfrannu at gymdeithas a gwneud gwahaniaeth i bobl eraill. Mae addysg grefyddol wedi fy helpu i ddangos mwy o barch at eraill. Rwy'n sylweddoli nawr bod rheswm da gan bobl dros gael barn wahanol.



## Mynegi

Mae addysg grefyddol yn rhoi dealltwriaeth i ni o bobl o grefyddau eraill, sy'n hanfodol yn ein cymdeithas ni heddiw. Mae'n ffordd o osgoi dadleuon hiliol ac uno pobl fel un gymuned heb eu beirniadu.

## Hysbysu



Mewn gwersi addysg grefyddol yn y chweched dosbarth rydyn ni'n dysgu am gredoau crefyddol eraill felly bydd teithio i wledydd a diwylliannau eraill yn haws a byddwn yn gallu parchu crefyddau eraill am eu credoau. Mae siaradwyr o grefyddau eraill yn helpu. Mae addysg grefyddol yn ein helpu mewn ffyrdd ymarferol hefyd, fel gwybod sut i ddelio â digwyddiadau arbennig yn ein bywydau fel trefnu priodasau ac angladdau.



## Cymell

Mae addysg grefyddol yn bwysig mewn ysgolion achos mae'n rhoi dealltwriaeth i ni o bethau dydd i ddydd o safbwyntiau pobl wahanol o grefyddau gwahanol. Mae'r pwnc yn helpu ni i ddeall sut i ymddwyn yn gywir, sut i drin pobl a sut i helpu pobl. O astudio addysg grefyddol rwyf wedi dysgu llawer o bethau sydd yn fy ysbrydoli i. Fe fydd hyn yn fy helpu i fynd trwy fywyd yn y ffordd rwy'n ei gweld sy'n gywir, sef y ffordd Gristnogol. Mae'r pwnc yn rhoi dealltwriaeth i fi, hefyd mae'n rhoi syniadau newydd i fi sydd yn fy helpu i a fy ngwaith yn gyffredinol. Yn y dyfodol gall y pwnc rhoi llawer o gyfleoedd i fi ddangos fy nealltwriaeth lawn, a hefyd fe fydd y pwnc yn agor llawer o ddrysau i fi.

## Paratoi



Ie, mae addysg grefyddol yn bwysig i bobl yn y chweched dosbarth oherwydd rydyn ni ar fin gadael yr ysgol a bod yn oedolion, ond dyn ni ddim yn teimlo'n barod am y byd a does dim pwnc arall yn yr ysgol sy'n dweud wrthyn ni sut i ymdopi. Rwy'n mwynhau'r siaradwyr sy'n dod i'r ysgol ac yn sôn am sut roedden nhw wedi delio â phethau fel cam-drin cyffuriau. Ac addysg grefyddol yw'r unig bwnc lle does dim rhaid i ni wneud unrhyw waith cwrs a thraethodau!

## Herio a phrocio

Gallwn ni sôn wrth bobl eraill am ein profiadau, a dangos ffilmiau a lluniau, ond does dim modd cyfleu'r teimladau a'r ystyr go iawn. Yr unig ffordd i ddeall y pethau 'ma yw os yw pobl eraill yn cymryd rhan. Mae'n werth yr amser a'r ymdrech... Rwy eisiau dweud diolch i'r athro addysg grefyddol am roi cyfle i ni astudio materion trydydd byd a helpu gyda chodi arian ar gyfer Uganda. Rwy'n ddiolchgar iawn!

## Datblygu

Mae cymryd astudiaethau crefyddol wedi helpu fi i gyrraedd safonau academaidd uchel. Roeddwn i'n meddwl y byddai astudio crefydd yn ddiddorol – ac mae wedi bod yn ddiddorol – ond mae wedi helpu fi i ddatblygu fy sgiliau ymchwil hefyd a gallu cyflwyno a chyfathrebu fy ngwaith. Rwy'n gallu dadansoddi safbwyntiau ac agweddau pobl eraill yn well nawr hefyd.

# Sicrhau darpariaeth addysg grefyddol 14–19 o safon uchel

Mae addysg grefyddol yn ofyniad statudol i ddysgwyr 14 i 19 oed a rhaid gweithredu'r pwnc yn unol â'r maes llafur cytûn lleol. Mae'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn darparu canllawiau ar sgiliau ac ystod addysg grefyddol yn y cyfnod hwn ac yn amlinellu'r hyn sy'n cael ei ystyried yn addysg grefyddol o safon.

> Yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, bydd addysg grefyddol yn ysgogi dysgwyr i ystyried cwestiynau a materion sylfaenol sy'n ymwneud â'u hanghenion unigol, yn ateb galwadau'r byd modern ac yn ysgogi ac yn herio eu prosesau meddwl eu hunain ac eraill, gan felly adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn y cyfnodau allweddol blaenorol. Trwy gyfranogi a chymryd rhan yn weithredol, cynnal dadleuon heriol ac ymchwilio'n fanwl i grefydd a syniadau crefyddol/anghrefyddol sy'n amlwg yn eu cymdogaeth yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn fyd-eang, dylai'r dysgwyr ddefnyddio a chymhwyso eu gwybodaeth er mwyn cyflwyno damcaniaethau a chreu rhagdybiaethau gan felly ysgogi cwestiynau dyfnach a mwy heriol. Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth manwl a helaeth o grefydd a syniadau crefyddol yn meithrin sensitifrwydd a pharch diwylliannol, gwerthfawrogiad o amrywiaeth, mwy o gydlyniad cymdeithasol a chyfrifoldeb yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Bydd addysg grefyddol yn crisialu datblygiad ysbrydol a moesol, a gall ysgogi ymatebion personol llawn mynegiant pan fydd dysgwyr yn darganfod ystod eang o safbwyntiau a gwerthoedd y byd, y tu hwnt i'r cyffredin a'r materol, a phan fyddant yn cael eu goleuo gan gysylltiadau neu ymwybyddiaeth sydd newydd eu deall. Trwy eu gwaith archwilio dylai'r dysgwyr ddechrau deall bod y casgliadau a wneir ynghylch cwestiynau sylfaenol a phersonol yn rhannol, yn amhendant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.
>
> *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – tudalen 13

Mae'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol yn darparu rhaglenni astudio ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed sy'n nodi sut y gall y tri sgìl craidd rhyngberthynol sef:

- ymdrin â'r cwestiynau crefyddol a dynol sylfaenol
- archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol
- mynegi ymatebion personol

gael eu cyd-blethu i ddarparu addysg grefyddol ysgogol sy'n cymell y dysgwyr.

Mae'r Ystod, fel yr amlinellir yn y fframwaith addysg grefyddol, yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau lle y gall pobl ifanc gymhwyso'r sgiliau addysg grefyddol y maen nhw'n eu datblygu dros y cyfnod o bedair blynedd yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg, a thrwy gyfuno'r sgiliau a'r ystod bydd y dysgwyr yn cael profiadau sy'n berthnasol ac yn werthfawr.

Mae dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy y gallan nhw eu cymhwyso yn eu profiadau dysgu gydol oes yn y dyfodol. Yn ogystal ag ateb gofynion y fframwaith addysg grefyddol felly, mae'r ymagweddau yn yr astudiaethau achos ar dudalennau 16 i 70 wedi'u cysylltu'n agos â'r Llwybrau Dysgu 14–19 ac yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu'r holl Sgiliau Allweddol (fel Cyfathrebu, TGCh, Cymhwyso Rhif, Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich hun, Gweithio gydag Eraill a Datrys Problemau). Mae'r astudiaethau achos hefyd yn dangos sut y gellir cyflwyno'r dysgwyr i'r syniadau a'r heriau a allai eu hwynebu yn eu gyrfa ac yn eu profiadau byd gwaith yn y dyfodol.

Felly, dylai ysgolion weld addysg grefyddol 14–19 nid yn unig fel hawliau dysgwyr ond hefyd yn gyfle ar gyfer amrywiaeth o bosibiliadau amserlennu arloesol a all wella profiadau addysgol cyffredinol a chyrhaeddiad y dysgwyr. Mae'r dulliau cyflwyno ar dudalennau 16 i 70 nid yn unig yn awgrymu sut y gellir darparu'r gofynion cyfreithiol sylfaenol ar gyfer addysg grefyddol, maen nhw hefyd yn awgrymu sut y gellir gwella elfennau eraill o'r cwricwlwm a'u hategu trwy ddarpariaeth addysg grefyddol benodol. Er enghraifft, gall y sgiliau a'r ystod a ddarperir mewn gwersi addysg grefyddol ychwanegu dimensiwn arall at feysydd cwricwlwm eraill drwy gynyddu mewnwelediad, gwybodaeth a dirnadaeth. Gallai'r dimensiwn ychwanegol hwn ddylanwadu ar lwyddiant mewn dyfarniadau allanol, dyheadau galwedigaethol, diddordebau ac ymrwymiadau allgwricwlaidd, ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion sy'n ymwneud â chydlyniad cymdeithasol, cydraddoldeb a chymhelliant cyffredinol.

Mae'n bwysig bod addysg grefyddol yn cael ei hystyried yn fwy na dim ond cyfle i sgwrsio am ddigwyddiadau a materion cyfoes o bwys heb unrhyw bwrpas eglur. Yn hytrach, dylai addysg grefyddol ddarparu fforwm agored a chyd-destun er mwyn i'r dysgwyr allu ystyried materion yn drylwyr a herio rhagdybiaethau anwybodus. Dylid rhoi cyfleoedd iddyn nhw archwilio doethineb diwinyddol, athronyddol a moesegol y gorffennol a'r presennol fel sail ar gyfer datblygu eu safbwyntiau gwybodus eu hunain.

Mae'r astudiaethau achos yn enghreifftio'r math o weithgareddau y gellid eu defnyddio i weithredu addysg grefyddol 14–19 o safon. Wrth gwrs, gellir ychwanegu at y gweithgareddau hyn. Mae'r amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir, y cynnwys a'r ymagweddau a awgrymir yn arloesol ac yn heriol, ond, serch hynny, yn dangos ychydig yn unig o'r potensial sydd gan addysg grefyddol o ran cyfoethogi profiadau addysgol pobl ifanc.

# Addysg grefyddol a'i chyfraniad at y Llwybrau Dysgu 14–19

Mae'r Llwybrau Dysgu 14–19 yn cynnig cyfle da i reolwyr ym mhob sefyllfa ddysgu gynnig darpariaeth sy'n gweddu'n well i anghenion pobl ifanc unigol a gofynion y byd modern.

O fewn y Llwybrau Dysgu, mae'r Craidd Dysgu yn adnabod y sgiliau, yr wybodaeth, y ddealltwriaeth, y gwerthoedd a'r profiadau y mae eu hangen ar bob dysgwr er mwyn eu paratoi ar gyfer dysgu pellach, cyflogaeth a boddhad personol ac er mwyn iddyn nhw allu cyfrannu at ein cymdeithas ddwyieithog ac amrywiol, pa bynnag Lwybr Dysgu a ddewisan nhw.

Bydd gan ddysgwyr 14 i 19 oed Lwybrau Dysgu fydd yn cynnwys rhaglenni o'r gofynion statudol sy'n cynnwys addysg grefyddol. Wrth ddatblygu'r rhaglenni astudio ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, cymerwyd gofal mawr i sicrhau y byddai'r gwaith sy'n ofynnol mewn addysg grefyddol yn cyfateb â gofynion y Llwybrau Dysgu.

| **Llwybrau Dysgu 14–19** | **Gall darpariaeth addysg grefyddol statudol gyfrannu at y Craidd Dysgu:** |
|---|---|
| Sgiliau Allweddol | trwy ddefnyddio gwersi addysg grefyddol statudol i ddatblygu ac asesu Sgiliau Allweddol<br>• yn anffurfiol trwy weithredu yn gyffredinol y sgiliau a'r ystod a nodwyd yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – (Enghreifftiau i'w gweld ym mhob un o'r astudiaethau achos)<br>• yn ffurfiol yn yr astudiaethau achos sy'n ymwneud â chymwysterau Sgiliau Allweddol (tudalen 55) a Bagloriaeth Cymru (tudalen 49). |
| Sgiliau yn y Gymraeg | trwy wersi addysg grefyddol cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, a thrwy cynnwys agweddau mwy ymarferol ar addysg grefyddol mewn profiadau dysgwyr Cymraeg (Er enghreifftiau o astudiaethau achos o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gweler tudalennau 19, 28, 36, 45, 47, 49 a 69). |
| Sgiliau eraill cysylltiedig â gwaith | trwy ddarparu elfennau o'r cwrs addysg grefyddol statudol sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion galwedigaethol a sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithle (tudalennau 22 a 31). |

| | |
|---|---|
| Cwricwlwm Cymreig/ Cymru, Ewrop a'r byd | trwy gyflwyno'r dysgwyr i faterion cydraddoldeb, amrywiaeth, cyfiawnder a dinasyddiaeth fyd-eang (tudalennau 17, 28, 31, 36, 38, 41, 45 a 66). |
| Materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd | trwy gyflwyno'r dysgwyr i'r heriau a allai gael effaith ar eu bywyd bob dydd a'u perthnasoedd personol a sut y gall crefydd helpu i feithrin ymdeimlad o gymuned a chyfrifoldeb am y byd. (Enghreifftiau i'w gweld ym mhob un o'r astudiaethau achos). |
| Addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd | trwy ddarparu elfennau o'r cwrs addysg grefyddol statudol a allai ddylanwadu ar eu dewis o yrfa, a chynnig sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithle (tudalennau 22 a 31). |
| Agweddau a gwerthoedd | trwy gyflwyno'r dysgwyr i amrywiaeth o syniadau heriol, er mwyn iddyn nhw fod yn wybodus, yn agored i bosibiliadau newydd, ac yn ddeallus ac yn barchus. (Fe welwch enghreifftiau ym mhob un o'r astudiaethau achos). |
| Profiad sy'n canolbwyntio ar waith | trwy ddarparu cyfleoedd i archwilio'r sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau sydd eu hangen ar gyfer byd gwaith. (Enghreifftiau i'w gweld ym mhob un o'r astudiaethau achos). |
| Cyfranogiad cymunedol | trwy ddarparu cyfleoedd:<br>• i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, e.e. trwy godi arian (tudalennau 28, 36, 61, 64 a 66)<br>• drwy gyfranogiad ffurfiol wedi'i drefnu gan yr ysgol (tudalennau 28, 36, 61, 64 a 66). |
| Profiadau diwylliannol/ chwaraeon/esthetig/ creadigol | trwy ddarparu cyfleoedd i:<br>• archwilio'r agwedd ddiwylliannol ar grefydd yn lleol ac yn fyd-eang a'i heffaith ar gymdeithas a chydlyniad cymunedol<br>• gwerthfawrogi'r ystyr a'r symbolaeth sy'n cael eu cyfleu trwy weithiau celf, defod, bwyd, dawns, ac ati<br>• defnyddio eu creadigrwydd i fynegi ystyr a dimensiynau mwy ysbrydol/anniriaethol bywyd (tudalennau 26, 28, 61, 64 a 66). |

**Sylwer:** Gall nifer o'r enghreifftiau ymdrin â mwy nag un elfen o'r Craidd Dysgu.

# Dulliau cyflwyno posibl ar gyfer darparu addysg grefyddol 14–19

- **Addysg grefyddol statudol trwy ddewisiadau arholiad** fel TGAU (cwrs byr a chwrs llawn)
- **Gwersi wedi'u hamserlennu ar gyfer addysg grefyddol statudol Cyfnod Allweddol 4**
- **Defnyddio eclips y BBC *Addysg Grefyddol: Addysg Ryfeddol***
- **Gwersi wedi'u hamserlennu ar gyfer addysg grefyddol statudol Ôl-16**
- **Gwaith elusennol ac ymweliadau**
- **Encilion a chynadleddau**
- **Wythnos drawsgwricwlaidd**
- **Dyfarniad ASDAN (Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynllun Dyfarnu)**
- **Rhaglen gyfoethogi drawsgwricwlaidd**
- **Sgiliau Allweddol**
- **Rhaglen gyfoethogi'r cwricwlwm ehangach**
- **Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**
- **Y Craidd Dysgu – gwersi tiwtorial wedi'u hamserlennu**
- **Cynadleddau undydd i gefnogi gwaith TGAU neu Safon Uwch**
- **Cynadleddau undydd blynyddol (tymhorol)** (Rhaid cynnwys cyfnodau addysg grefyddol ychwanegol/unedau hunanastudio er mwyn bodloni'r gofynion statudol)

Gellid defnyddio'r dulliau cyflwyno a nodwyd ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 neu Ôl-16. Bydd arfer gorau yn cyfuno sawl un o'r uchod er mwyn bodloni'r gofyniad cyfreithiol i ddarparu addysg grefyddol ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed.

# Astudiaethau achos yn enghreifftio ystod o ddulliau cyflwyno

## Dull cyflwyno – Addysg grefyddol statudol trwy ddewisiadau arholiad

Mae astudiaethau crefyddol TGAU, cwrs byr a chwrs llawn, yn cynnig dull hyblyg o ddarparu achrediad yn benodol i ddysgwyr 14 i 16 oed, ond hefyd i ddysgwyr 16 i 19 oed os yw cwrs byr 'atodol' arall yn cael ei gynnig.

Er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol, dylai'r maes llafur cytûn lleol nodi'n eglur pa fath o gwrs sy'n ofynnol ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed. Os yw'n argymell dewis o achrediad ffurfiol ar gyfer y cwrs astudio, dylai'r maes llafur cytûn nodi'n eglur y corff dyfarnu a'r fanyleb arholi y gellir eu defnyddio.

Mae rhai enghreifftiau isod o'r ymagweddau arloesol at dysgu ac addysgu a all wella datblygiad sgiliau a chyfoethogi dysgu'r dysgwyr.

### Enghraifft 1 | Trosedd a chosb

Mae'r ysgol hon yn cynnig TGAU cwrs byr fel ei haddysg grefyddol statudol ar gyfer y garfan 14–16 gyfan mewn gwersi addysg grefyddol ffurfiol wedi'u hamserlennu.

**Cwestiynau sylfaenol:**

- Beth yw'r credoau crefyddol ynghylch cosb a maddeuant?
- Beth yw barn cymdeithas ar gosb a maddeuant?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**

- Safbwyntiau Cristnogol, Mwslimaidd a Bwdhaidd ar gosb a maddeuant.

**Ymateb personol:**

- Pa heriau ydym ni'n eu hwynebu heddiw o ran cyfiawnder, anghyfiawnder, euogrwydd, edifeirwch, da a drwg?

Fel rhan o astudio elfen y gosb eithaf TGAU cwrs byr, bydd y dysgwyr yn archwilio agweddau crefyddol a dynol at gosb a maddeuant o safbwynt Cristnogol, Mwslimaidd a Bwdhaidd. Fel rhan o'u hastudiaethau, gofynnir cwestiynau a chyflwynir astudiaethau achos heriol.

Mae'r pwnc y gosb eithaf yn cael ei drafod ac mae'r dosbarth yn pleidleisio i ganfod barn y dysgwyr. Er mwyn herio safbwyntiau'r dysgwyr cyflwynir astudiaethau achos o i) carcharorion sydd wedi derbyn y gosb eithaf, ond sydd wedi'u cael yn ddieuog yn ddiweddarach ii) carcharorion sydd wedi treulio blynyddoedd maith yn y carchar ac sy'n edifar ac yn ceisio gwneud iawn am ddrygioni'r gorffennol, a iii) dioddefwyr neu eu teuluoedd sydd wedi maddau i'r rhai a gyflawnodd y drosedd.

Ar sail yr astudiaethau achos hyn a'u gwybodaeth o egwyddorion crefyddol, bydd y dysgwyr yn dadlau sut y bydd ymlynwyr crefyddol yn gweithredu ar eu hegwyddorion crefyddol ac yn barnu'r sawl a gyflawnodd y drosedd. Yna maen nhw'n pennu'r meini prawf y bydden nhw'n eu defnyddio i lunio barn pe bydden nhw'n aelodau rheithgor. Ar ôl gwneud gwaith ymchwil pellach er mwyn casglu tystiolaeth i gefnogi eu safbwyntiau maen nhw'n trafod pa faterion allai godi pe byddai ymlynwr crefyddol ar y rheithgor. Mae ystyried y berthynas rhwng y gyfraith ac argyhoeddiad crefyddol personol yn arwain at ddadl ddiddorol, ac ystyried da a drwg a phwrpas y ddynoliaeth.

Yn olaf, mae'r athro/athrawes yn cyflwyno astudiaeth achos newydd sy'n ymwneud â rhywun y teimlid bod ei garchariad yn anghyfiawn, er enghraifft Nelson Mandela. Mae'r athro/athrawes yn defnyddio'r ymagwedd Athroniaeth i Blant[1] er mwyn cymell y dysgwyr i ofyn cwestiynau dyfnach a mwy heriol am y mater. Mae'r dysgwyr yn pleidleisio ar y cwestiwn y teimlan nhw sy'n fwyaf arwyddocaol ac yn cynnal dadl ffurfiol ar y cwestiwn.

Anogir y dysgwyr i ymateb i'r ddadl trwy gyfrwng cyflwyniad Powerpoint llawn dychymyg, er mwyn dangos y materion crefyddol heriol a'r emosiynau sy'n cael eu hennyn gan gyfiawnder, anghyfiawnder, euogrwydd, edifeirwch, da a drwg.



Nelson Mandela yn cael ei ryddhau o'r carchar

1. Mae Athroniaeth i Blant (Philosophy for Children) neu Gymuned Ymholi (Community of Enquiry) yn golygu bod y dysgwyr yn cael ysgogiad (ar ffurf llun, erthygl, barddoniaeth, rhyddiaith, ac ati) i'w drafod. Mae'r dysgwyr yn gofyn cwestiynau am yr ysgogiad ac yn trafod rhinweddau'r cwestiynau yr hoffen nhw eu trafod. Mae'r grŵp, drwy ddull democratig, yn dod i gonsensws barn ynghylch y cwestiynau mwyaf perthnasol ac yn mynd ymlaen i drafod y cwestiynau'n ffurfiol drwy ddefnyddio ffynonellau gwybodus a heriol a deunyddiau ysgogol newydd.

**Y math o gwestiynau sy'n codi yn y gweithgaredd Athroniaeth i Blant**

- Pam bydd pobl yn dioddef weithiau er mwyn mynnu cyfiawnder?
- A ddylai pobl grefyddol fod yn fwy tebygol o herio anghyfiawnder?
- Beth fydd yn darbwyllo pobl bod rhagfarn a gwahaniaethu yn ddrwg?
- Ydy pobl yn ddrwg neu dim ond yn dilyn y dyrfa heb feddwl?
- Sut gall pobl faddau drygioni'r gorffennol?
- Sut mae credoau crefyddol yn effeithio ar faddeuant?

## Enghraifft 2 | Perthnasoedd personol a phriodas

Mae'r ysgol hon yn cynnig TGAU cwrs byr mewn gwersi addysg grefyddol ffurfiol wedi'u hamserlennu.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Beth yw'r credoau crefyddol ynghylch perthnasoedd a phriodas?
- Beth yw barn cymdeithas am berthnasoedd a phriodas?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Safbwyntiau Cristnogol ar berthnasoedd, priodas ac ysgariad.

**Ymateb personol:**
- Archwilio sut a pham y mae pobl yn parhau i fod yn ymrwymedig i briodi.

Mae bodloni gofynion cwrs byr addysg grefyddol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau arloesol wrth archwilio'r pwnc perthnasoedd personol a phriodas. Mae'r gweithgareddau hyn yn dal dychymyg y dysgwyr ac yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy iddyn nhw a fydd yn gwella eu gallu i ryngweithio ag eraill yn y dyfodol.

Mae perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio'n aml ar gyfathrebu da, ymddiriedaeth a pharch. Mae'r dysgwyr yn archwilio eu dehongliad eu hunain o ystyr y geiriau hyn ac yn synnu'n aml bod cynifer o ddehongliadau gwahanol. Trwy archwilio'r anghysondeb, mae'r dysgwyr yn gweld pa mor hawdd yw hi i wrthdaro a chamddealltwriaeth ddigwydd. Hefyd mae'r dysgwyr yn dysgu sut i gyd-wrando[2] sy'n gwella eu dealltwriaeth o sgiliau cyfathrebu. Mae'r dysgwyr yn chwarae rôl Pregeth ar y Mynydd yr Iesu ac yn ystyried y safbwyntiau Cristnogol ar berthnasoedd, datrys anghydfod a maddeuant.

Mae cynghorydd yn cael ei wahodd i'r ysgol i esbonio rôl cynghorydd priodas. Mae hi'n Gristion ymrwymedig ac felly mae'n esbonio sut mae ei chredoau crefyddol personol ei hun wedi effeithio ar ei gwaith, ac mae'n trafod sut y mae wedi dehongli agwedd yr Iesu at briodas ac ysgariad. Mae hi'n esbonio bod cyfrinachedd a bod yn ddiduedd yn hanfodol yn ei gwaith.

Mae'r dysgwyr yn ymchwilio ymhellach i'r dysgeidiaethau a'r credoau cysylltiedig ynghylch priodas ac ysgariad ac yn paratoi cwestiynau i'w gofyn i offeiriad Anglicanaidd sy'n ymweld â'r ysgol. Mae'r offeiriad yn dweud wrthyn nhw sut y mae'n paratoi pobl ar gyfer priodas trwy gynnal dosbarthiadau ac mae'n disgrifio sut y mae'n cynnal y seremoni briodas. Mewn grwpiau, mae'r dysgwyr yn paratoi amrywiaeth o bynciau y teimlen nhw y dylid eu trafod mewn dosbarthiadau paratoi ar gyfer priodas ac yn dadlau a allai trefniadau paratoi ar gyfer priodas proffesiynol helpu i atal ysgariadau yn y dyfodol.

Mae'r dysgwyr yn archwilio manylion y seremoni briodas ac yn ymchwilio sut mae'r geiriau a'r symbolaeth yn adlewyrchu credoau Cristnogol. Mewn grwpiau, mae'r dysgwyr yn cynhyrchu prosiect priodas i archwilio'r credoau, y dysgeidiaethau a'r arfer(ion) perthnasol ac yn cynnal seremoni briodas trwy chwarae rôl sy'n cael ei recordio ar fideo.

---

2. Mae cyd-wrando yn cael ei gyfleu gan y syniad o wrando er mwyn deall. Er mwyn gwneud hyn byddwch yn rhannu teimladau a safbwyntiau yn agored, heb roi eich dehongliad personol eich hun, a byddwch yn ailadrodd beth mae'r unigolyn hwnnw yn ei ddweud. Mae'r dyfnder dealltwriaeth a rennir yn cael ei chyfoethogi ar unwaith a bydd cyfathrebu yn well.

## Enghraifft o waith dysgwyr

**Sut byddai ein grŵp yn trefnu dosbarth paratoi ar gyfer priodas**

Nod:

- Gwneud y dosbarth paratoi ar gyfer priodas yn ddiddorol ac yn hwyl.
- Cynnig cyfle i gwrdd â pharau eraill.
- Dysgu mwy am yr agwedd Gristnogol at briodas.

Pam mae priodas yn bwysig i chi?

- Gofynnwch i'r parau rannu eu syniadau am briodas a pham ei bod yn bwysig iddyn nhw (dangoswch y Powerpoint rydym ni wedi'i baratoi sy'n cyfeirio at ddysgeidiaethau'r Iesu).
- Gofynnwch iddyn nhw pam eu bod yn chwilio'n benodol am wasanaeth priodas Cristnogol. Trafodwch y materion.
- Trafodwch beth mae Cristnogaeth yn ei olygu wrth y geiriau caru, anrhydeddu ac ymgeleddu – pam bod y rhain yn bwysig?

Sut i ddelio â ffraeo

- Gofynnwch i unigolion ysgrifennu eu diffiniad o'r geiriau caru, anrhydeddu ac ymgeleddu.
- Cymharwch syniadau â gweddill y grŵp.
- Trafodwch beth sy'n digwydd os oes diffiniad gwahanol gan eich partner.
- Ceisiwch ymarfer sgiliau cyd-wrando (cymysgwch y parau er mwyn osgoi anghydweld yn y grŵp).

Pam bydd priodasau'n chwalu a sut i atal hyn

- Rhowch astudiaethau achos i'r parau yn disgrifio pam mae rhai priodasau'n methu.
- Trafodwch bob un ohonyn nhw mewn grwpiau; ceisiwch benderfynu beth y gellid fod wedi'i wneud yn syth/yn ddiweddarach i ddatrys y mater.
- Dangoswch Powerpoint ar agweddau Cristnogol at ysgariad a thrafodwch pa gymorth sydd ar gael i bobl sy'n cael problemau.

## Dull cyflwyno – Gwersi addysg grefyddol wedi'u hamserlennu

Er bod galw mawr yn aml ar amserlen dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, gall gwersi wedi'u hamserlennu yn rheolaidd ac sy'n hybu addysg grefyddol o safon fod yn fuddiol iawn. Gall gwersi wedi'u hamserlennu fodloni gofynion statudol y maes llafur cytûn lleol, y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* a gallan nhw gysylltu â nifer un o ofynion y Llwybrau Dysgu 14–19. Gall cwrs pedair blynedd a gynlluniwyd yn ofalus gynnal diddordeb a chymell y dysgwyr i ymchwilio a dadlau cwestiynau a materion sy'n berthnasol i'w bywydau; herio syniadau rhagdybiedig neu normau derbyniol cyffredin; gall ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy sydd yn aml yn ymwneud yn uniongyrchol â dewisiadau gyrfa a byd gwaith.

### Enghraifft 1

Mae'r ysgol hon yn darparu gwersi addysg grefyddol ffurfiol wedi'u hamserlennu i ddysgwyr Ôl-16, ymagwedd a fu'n llwyddiannus iawn.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Pa heriau fydd pobl yn eu hwynebu mewn cymdeithas heddiw o ran arferion busnes a chyfrifoldeb meddygol?
- Sut mae safbwyntiau crefyddol yn perthnasu â'r heriau hyn?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Mae Cristnogaeth yn darparu amrywiaeth o fewnwelediadau i'r heriau hyn o ran y 'Rheol Aur', cyfiawnder, hawliau a chyfrifoldebau, cyfoeth, ac ati.

**Ymateb personol:**
- Gwerthuso dylanwadau crefyddol ac fel arall ar gyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau moesol.

Mewn uned moeseg busnes mae'r dysgwyr yn adnabod arferion busnes moesegol sydd wedi cael eu dylanwadu gan ddysgeidiaethau a chredoau crefyddol (er enghraifft arferion busnes cwmnïau gyda thraddodiad Cristnogol a sefydliadau masnach deg amrywiol). Mae'r dysgwyr yn ystyried amcanion y sefydliadau hyn a'r meini prawf y bydd eu heffeithiolrwydd yn cael ei farnu yn eu herbyn. Maen nhw'n gwneud gwaith ymchwil pellach ar gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddau, Cristnogaeth yn arbennig, ac yn archwilio sut y mae neu y dylai'r egwyddorion crefyddol sylfaenol effeithio ar fyd busnes.

Mae'r dysgwyr yn archwilio'r gwerthoedd moesol a fynegir yn y cyfryngau trwy ffilmiau sy'n ymwneud â busnes mawr a gwneud arian ac yn ystyried pwysigrwydd egwyddorion moesegol yn y gweithle ac mewn arferion busnes. Gan ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth grefyddol fel ffynhonnell, mae grwpiau o ddysgwyr yn paratoi cyfres o feini prawf ar gyfer arferion busnes moesegol ac yn gwerthuso'r meini prawf hyn o ran busnesau rhyngwladol a busnes lleol sy'n gweithio ar sail egwyddorion Cristnogol.

**Dysgwyr yn gwerthuso arferion busnes siop Gristnogol leol**





| Dysgeidiaeth yr Iesu | Meini prawf ar gyfer arferion busnes moesegol | Ydy'r siop de Gristnogol yn bodloni'r meini prawf hyn? |
|---|---|---|
| Y Samariad Trugarog (Luc 10: 25–37) | Trin cwsmeriaid gyda Chariad Cristnogol (Agape[3]). Dylid trin dieithriaid/gelynion â pharch hefyd a'u croesawu fel aelod o'r teulu. | Pan alwon ni heibio roedd awyrgylch hyfryd a chawson ni ein trin fel cefndyr hirgolledig. |
| Y Mab Afradlon (Luc 15: 11–32) lle mae'r tad yn lladd y llo pasgedig. Mae hyn yn dangos mai dim ond y bwyd gorau sy'n briodol. | Ydy ansawdd y nwyddau yn wych ac ydy'r nwyddau'n cael eu cynhyrchu'n foesegol? | Lle'n bosibl, mae'r bwyd a'r ddiod yn fasnach deg; mae cynhyrchion eraill yn adnoddau lleol iach. |
| Ddegymu (Genesis 28:22) a Chyflog teg (Luc 10: 7). | Beth sy'n digwydd i'r elw? Ydy'r elw yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r sefydliad, talu cyflogau teg a'i roi i elusen neu sefydliad crefyddol? | Mae unrhyw elw yn cael ei ailfuddsoddi yn y weinidogaeth Gristnogol. |

Wrth astudio uned ar sancteiddrwydd bywyd mae'r dysgwyr yn ymwneud yn weithredol â chredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a gofynnir iddyn nhw ystyried y rhain mewn perthynas â chwestiynau fel ewthanasia, clonio, trawsblannu organau ac IVF. Bydd rhan o'r ddadl yn cwmpasu materion fel ystyr a gwerth bywyd ac a oes hawl gan unigolion a/neu gymdeithas i wneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n byw a phwy sy'n marw. Er mwyn tynnu casgliadau defnyddian nhw amryw o safbwyntiau crefyddol ac athronyddol i herio eu meddwl.

Yna bydd y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i glipiau penodol o ffilmiau fel *Extreme Measures* lle y codir materion heriol am arbrofi gwyddonol a'r camau eithafol damcaniaethol y gallai unigolion eu cymryd dros yr hyn y credan nhw sydd er lles y mwyafrif. Mae'r dysgwyr yn adeiladu tystiolaeth o wahanol safbwyntiau crefyddol ac athronyddol, gan ddadlau'r mater yn weithredol er mwyn paratoi canllawiau sy'n diogelu'r unigolyn a chymdeithas.

3. Agape yw'r gair Groeg am Gariad Cristnogol – dangos consyrn dros eraill hyd yn oed os nad ydych yn eu hadnabod (neu eu hoffi).

**Enghreifftiau o gwestiynau y dewisodd y dysgwyr eu hymchwilio**

- Pa faterion crefyddol a moesegol sy'n codi ym maes ymchwil cell fonyn, trawsblaniadau yn defnyddio organau anifeiliaid, ac ati?
- Beth a olygir wrth 'er lles y mwyafrif'?
- Pwy sydd â'r hawl i benderfynu beth sydd 'er lles y mwyafrif'?
- Beth a olygir wrth ansawdd bywyd?
- Beth yw'r safbwyntiau crefyddol ar ansawdd a gwerth bywyd?

## Enghraifft 2

Mae'r ysgol hon yn cynnig gwersi addysg grefyddol ffurfiol wedi'u hamserlennu i ddysgwyr Ôl-16, ymagwedd a fu'n llwyddiannus iawn.

**Cwestiynau sylfaenol:**

- Beth yw natur Duw a sut mae Duw yn cael ei bortreadu yn y cyfryngau?
- Ydy Duw yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**

- Mae credoau, dysgeidiaethau ac arferion Cristnogaeth yn darparu sail ar gyfer barnu cywirdeb y portread o Dduw yn y cyfryngau cyfoes.

**Ymateb personol:**

- Gwerthfawrogi, parchu, empatheiddio â safbwyntiau eraill a'u gwerthuso er mwyn iddyn nhw allu tynnu eu casgliadau rhesymegol eu hunain.

O fewn eu gwersi wedi'u hamserlennu, mae'r ysgol hon yn archwilio pynciau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion, a chwestiynau sy'n ymwneud â chymdeithas gyfoes. Un o'r themâu poblogaidd i'w hystyried gyda dysgwyr Ôl-16 yw natur Duw. Yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg teimlid y gall ac y dylai'r dysgwyr ystyried a herio cynildeb diwylliant poblogaidd a'r hyn sydd y tu ôl i ffilmiau sy'n cynnwys delweddau crefyddol. Gallai ffilmiau sy'n defnyddio themâu crefyddol fel ffynhonnell digrifwch gael eu hystyried yn amharchus, ond gallan nhw ysgogi ymchwil ar realiti credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefydd a sut y cawsan nhw eu hystumio neu eu gwella gan ddiwylliant poblogaidd.

Fel man cychwyn, mae'r dysgwyr yn treulio amser yn archwilio syniadau Cristnogol o Dduw fel y dangosir yn yr ysgrythur ac yn y person Iesu. Mae nhw'n gwneud hyn trwy archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion i lywio eu meddwl. O'r sylfaen wybodaeth gadarn hon symudan nhw ymlaen i ddadlau'r symbolaeth sy'n ymwneud â'r cydsyniadau sy'n cael eu cyfleu mewn gweithiau celf neu ddiwylliant poblogaidd, er enghraifft Duw fel y creawdwr pwerus a ddarlunnir ar nenfwd Capel Sistine yn Rhufain; y darlun afrealistig o Dduw a ddarlunnir fel y ffigur Siôn Corn siriol yn y ffilm *Bruce Almighty*; y ddelwedd o Dduw llawn hwyl, di-lol a bortreadir yn y ffilm *Dogma* lle mae crefydd yn fateryddol ac yn cael ei gwyro o'i gwerthoedd moesol ac ysbrydol uchel, neu'r ddelwedd o Dduw fel y caiff ei gynrychioli mewn diwinyddiaeth ffeministaidd yr ugeinfed ganrif.

Mae'r dysgwyr yn archwilio realiti diwinyddiaeth Gristnogol (fel y'i mynegir yn y credoau, dysgeidiaethau ac arferion) ac yn ei gymharu â'r delweddau dibwys a ddarlunnir yn aml gan y cyfryngau, gan ofyn sut y gallai pobl anwybodus fod yn fwy cyfryngau llythrennol a chraff. Mae'r dysgwyr yn archwilio cymhellion y cynhyrchwyr a sut y gallai pobl grefyddol (er enghraifft Cristnogion) ymateb i'r cynrychiolaethau anghywir hyn o natur Duw. Gallai'r dysgwyr archwilio sut y gallai crefyddau eraill ymateb hefyd.

Er mwyn ystyried y cwestiwn sylfaenol sef, ydy Duw yn berthnasol yn yr unfed ganrif ar hugain mae'r dysgwyr yn gwneud gwaith ymchwil ac yn cyflwyno papur i'w cyfoedion.

**Enghraifft o waith dysgwr sy'n mynegi barn**

**Y dadleuon y gallai rhai pobl eu rhoi dros berthnasedd Duw yn yr unfed ganrif ar hugain:**

- Mae'r mwyafrif o bobl yn y byd yn credu mewn Duw neu mewn grym goruchel, boed yn Gristion, yn Iddew neu'n agnostig. Mae anffyddwyr yn lleiafrif mawr.
- 'Y meddwl sy'n trefnu pob dim' – felly, er ein bod ni fel bodau dynol yn ei chael hi'n anodd i feddwl y tu hwnt i realiti empirig, nid yw'n golygu na all pethau neu fodau eraill fodoli.
- Honnir bod gwyddoniaeth wedi gwrthbrofi Duw a'i berthnasedd yn raddol, ond mewn gwirionedd roedd nifer o hoelion wyth y byd gwyddoniaeth wedi datgan eu cred yn Nuw yn ddiweddarach.
- Mae damcaniaeth esblygiad Darwin yn ddim mwy na hynny... damcaniaeth ac nid prawf gwyddonol.
- Pam na all esblygiad theistig fodoli? Gallai Duw fod wedi cynllunio esblygiad a chynllunio'r Glec Fawr oherwydd ei hollalluogrwydd.
- Nid yw Duw yn Dduwdod statig, ond mae'r egwyddorion byd-eang cysylltiedig yn parhau i fod yn gymwys heddiw – 'na ladd'.
- Mae'n bosibl i Dduw fodoli a pharhau i fod yn berthnasol mewn byd llawn drygioni oherwydd:
  - mae drygioni naturiol yn angenrheidiol ar gyfer bodolaeth bywyd; pe na fyddai'r ddaear yn cael ei hadnewyddu byddem ni i gyd yn marw
  - mae drygioni moesol yn rhan ohonom oherwydd mae ewyllys rhydd gennym i wneud y penderfyniadau hyn
  - gall y dioddefaint hwn gryfhau ffydd, er nad oes modd ei weld yn y tymor byr.

## Dull cyflwyno – Wythnos drawsgwricwlaidd

Mae nifer o ysgolion yn hoffi gohirio gwersi wedi'u hamserlennu er mwyn darparu profiadau ysgogol, sy'n cynnal diddordeb nad yw bob amser yn bosibl eu darparu ym mywyd ysgol bob dydd. Gall y gweithgareddau atodol hyn wella amryw o ddisgyblaethau a dangos y cydberthynas rhyngddyn nhw. Hefyd gallan nhw ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau creadigol a chymdeithasol mwy amrywiol sy'n gallu meithrin cydlyniad a chyfranogiad cymunedol.

Gan fod addysg grefyddol yn delio â phynciau amrywiol a diddorol gall fod yn ffordd dda o weithredu gweithgareddau trawsgwricwlaidd cadarnhaol.

Mae'r ysgol uwchradd hon yn defnyddio addysg grefyddol statudol fel ffocws ar gyfer ei hwythnos drawsgwricwlaidd a gynhelir yn ystod tymor yr haf.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Pa heriau sy'n wynebu pobl mewn cymdeithas heddiw?
- Sut mae safbwyntiau crefyddol yn perthnasu â'r heriau hyn, yn enwedig dioddefaint, meddyginiaeth, gwrthdaro ac anghyfiawnder?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Safbwyntiau Cristnogol a dau safbwynt crefyddol arall ar ddioddefaint, meddyginiaeth, gwrthdaro a chyfiawnder (fel y pynciau mwyaf poblogaidd).

**Ymateb personol:**
- Pa heriau ydym ni'n eu hwynebu heddiw o ran dioddefaint, moesoldeb, heddwch, cyfiawnder a chydraddoldeb?

Fel dull llwyddiannus o baratoi dysgwyr Blwyddyn 10 ar gyfer eu hachrediad mewn addysg grefyddol statudol drwy TGAU cwrs byr, mae'r ysgol uwchradd hon yn cynnal wythnos drawsgwricwlaidd flynyddol. Am yr wythnos gyfan mae'r gwersi traddodiadol wedi'u hamserlennu yn cael eu gohirio ac mae'r dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu gweithredol trwy gyfrwng addysg grefyddol.

Mae naw grŵp o 20 i 25 dysgwr yn cael rhestr o bynciau o fanyleb cwrs byr CBAC a thrwy broses ddemocratig maen nhw'n dewis pwnc pryfoclyd ac elusen gysylltiedig er mwyn i'w grŵp ei hymchwilio a'i hastudio. Y pynciau mwyaf poblogaidd ar yr achlysur hon oedd dioddefaint, meddyginiaeth, gwrthdaro a chyfiawnder. Erbyn diwedd yr wythnos mae'n rhaid i bob grŵp gyflwyno eu gwaith a threfnu gweithgareddau codi arian ar gyfer ei elusen (i'w gynnal yn yr ysgol yr wythnos ganlynol).

Er bod athro/athrawes yn cael ei ddewis i weithio gyda phob grŵp am yr wythnos mae'r dysgwyr yn gweithredu fel dysgwyr annibynnol ar unwaith ac yn cymryd rolau a chyfrifoldebau priodol er mwyn cynllunio, datrys problemau, cyd-drafod a dirprwyo.

Mae'r wythnos yn cael ei hamserlennu'n ofalus er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau bob dydd, o wersi ar ddehongli ystadegau ac ysgrifennu llythyron ffurfiol i holi siaradwyr gwadd a chysylltu ag elusennau a busnesau lleol. Mae amrywiaeth o adnoddau priodol (gwerslyfrau, taflenni gwybodaeth, erthyglau a mynediad i wefannau rhyngrwyd/mewnrwyd) ar gael i'r dysgwyr er mwyn iddyn nhw allu ymchwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddau a chymhwyso eu casgliadau i'r cwestiynau sylfaenol sy'n codi.

Mae'r cyflwyniadau y mae'r dysgwyr yn eu paratoi yn dangos aeddfedrwydd a sensitifrwydd ac yn cael eu rhannu â gweddill Blwyddyn 10 ar ddiwedd yr wythnos. Yr wythnos ganlynol mae dysgwyr Blwyddyn 10 yn dilyn ymlaen o'u cyflwyniadau trwy gynnal diwrnod codi arian arloesol ar gyfer yr elusennau y maen nhw wedi'u hastudio.

### Enghreifftiau o ddysgwyr yn gweithio ar weithgareddau trawsgwricwlaidd





## Tasg 3 – Tasg Ymchwilio

Darllenwch dudalennau 37 - 44 o'r llyfr *Bwdhaeth ar gyfer myfyrwyr UG gan Wendy Dossett*

Atebwch y cwestiynau o'r cyflwyniad –

1. Pam nad yw Budhyddion yn defnyddio'r term ailymgnawdoliad?
   – Maent yn deall mae'r realiti yw'r gred nad oes hunan (anatta) parhaol neu sefydlog. Er bod Budhyddion yn credu mewn cysylltiad rhwng achos ac effaith (karma) fel mae'r Dhammapada yn dangos yn glir dydyn nhw ddim yn credu fod parhad llwyr rhwng un byd a'r nesaf.
2. Mae well gan Budhyddion dehnyddio'r term aileni. Dydyn nhw ddim yn credu bod enaid parhaol yn bodoli am byth
3. Mae Budhyddion yn credu fod un byd yn cael ei achosi gan un arall yn union fel mae fflam o un gannwyll yn achosi ail fflam. Dydi'r 2 fflam ddim yr un fath ond mae'r fflam gyntaf yn achosi'r ail fflam. Felly mae'r person mewn un byd yn barhad o'r person yn y byd nesaf ac eto'n wahanol iddo.
4. Na- chwant, Grym karma, ddoes dim creawdwr Duw

## Dull cyflwyno – Rhaglen gyfoethogi drawsgwricwlaidd

Yn ogystal â chael gwerth fel pwnc ynddo'i hun, gall addysg grefyddol statudol 14–19 gyfoethogi meysydd eraill o'r cwricwlwm hefyd. Mewn pynciau traddodiadol y cwricwlwm megis llenyddiaeth Saesneg a chelf a dylunio, mae gwerthfawrogi crefydd yn darparu cyfoeth o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n galluogi'r dysgwyr i ymateb i gwestiynau o ystyr. Mae'r sgiliau craidd yn y fframwaith addysg grefyddol yn cynnig her penagored i bobl ifanc chwilio am ystyr a chymhwyso mewnwelediadau crefyddol lle y bo'n briodol. Felly, er enghraifft, wrth astudio'r ddrama *Siwan* gan Saunders Lewis neu'r nofel *Un Nos Ola Leuad* gan Caradog Pritchard gall y dysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth o grefydd, ysbrydolrwydd, y cysyniad o Dduw, dealltwriaeth o da a drwg, ac ati er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r testunau.

Yn yr un modd, mae'r mewnwelediad a gynigir gan grefydd i astudiaethau galwedigaethol yn amhrisiadwy oherwydd ei fod yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddau unigol, ac mae'r rhain yn dylanwadu ar ddiwylliant a gwerthoedd cymunedau cynhenid ledled y byd. Mae'r dimensiynau moesol ac ysbrydol yn codi cwestiynau am ein gwerthoedd a'r effaith gadarnhaol a negyddol y gallwn ei chael ym myd teithio a thwristiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, ac ati.

Felly, mae'n bosibl defnyddio gwersi addysg grefyddol statudol wedi'u hamserlennu i fodloni gofynion y maes llafur cytûn lleol a'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, ond hefyd, lle bo'n briodol, datblygu rhaglen gyfoethogi sy'n cyd-fynd ag elfennau eraill o'r cwricwlwm ac sy'n datblygu sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer gyrfaoedd a byd gwaith, a dysgu gydol oes. Gellid cynnwys yr enghreifftiau sy'n dilyn mewn rhaglen o'r fath.

## Enghraifft 1 | Eco-dwristiaeth/Twristiaeth foesegol

Mae dysgwyr Blwyddyn 12 yn yr ysgol hon yn adnabod eu hanghenion a'u gofynion pan fyddan nhw ar wyliau. Maen nhw'n diffinio twristiaeth foesegol ac eco-dwristiaeth ac yn ystyried sut y gallen nhw fod yn eco-dwristiaid/twristiaid moesegol gwell.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Pam dylem ni ofalu am y byd naturiol a phethau byw?
- Pam dylem ni ddangos cyfrifoldeb a pharch tuag at bobl eraill?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Archwilio ystod o safbwyntiau crefyddol (er enghraifft Cristnogaeth, Bwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth ac Islam) ar gyfrifoldeb, gwerthoedd, dinasyddiaeth fyd-eang, cynaliadwyedd, ac ati.

**Ymateb personol:**
- Gwerthuso ar ba sail y bydd unigolion yn gwneud penderfyniadau am eu bywydau.

Drwy ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion y crefyddau a astudiwyd yn flaenorol, a hefyd taflenni gwybodaeth ychwanegol, mae'r dysgwyr yn gwneud asesiad risg manwl o sensitifrwydd crefyddol y gwledydd y gallen nhw ymweld â nhw, er enghraifft Nepal, India neu Israel. Fel ymwelwyr posibl i'r gwledydd hyn, maen nhw'n gwneud gwaith ymchwil ac yn paratoi cyflwyniadau grŵp gan adnabod materion pwysig a sensitif ynghylch gwyleidd-dra, bwyd, traddodiadau, arferion, ymddygiad, ac ati ac yn ystyried sut y gallai eu mewnwelediad herio/helpu i ddiffinio twristiaeth foesegol.

Er mwyn datblygu mewnwelediad i safbwyntiau crefyddol am y byd naturiol a phethau byw, gofynnir i'r dysgwyr drefnu detholiad o ddysgeidiaethau o lyfrau sanctaidd a ffynonellau crefyddol eraill er mwyn adnabod a chymharu safbwyntiau o fewn ac ar draws crefyddau. Ar sail eu casgliadau maen nhw'n llunio meini prawf y gellid barnu eco-dwristiaeth yn eu herbyn.

Mewn grwpiau, mae'r dysgwyr yn cael lluniau/astudiaethau achos o eco-dwristiaeth a gofynnir iddyn nhw asesu'r rhain yn erbyn y meini prawf crefyddol y maen nhw wedi'u datblygu. Mae'r lluniau yn

dangos nwyddau'n cael eu cynhyrchu drwy ddefnyddio prosesau naturiol, er enghraifft gweithdrefnau gwahanu cemegol, gwneud rhaffau a threillio tywod â llaw. Ond, mae gwybodaeth ychwanegol yn dangos bod pobl yn byw mewn tlodi truenus gydag amodau gwaith gwael ac mae'n bosibl eu bod, yn anfwriadol, yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd, er enghraifft nid oes unrhyw systemau hidlo gan y ffatri gemegol i osgoi llygredd, ac mae defnyddio tywod mewn rhaglen adeiladu enfawr yn achosi erydiad pridd yn anfwriadol.

Ar ôl astudio ystadegau ar gyfer ymrwymiad crefyddol yn rhyngwladol ac ystyried yr effaith y gallai ymlynwyr crefyddol ei chael pe bydden nhw'n fwy ymroddedig i warchod y byd naturiol a phethau byw, mae'r dysgwyr yn cynllunio ac yn gweithredu ymgyrch hysbysebu i ddal dychymyg ymlynwyr crefyddol.

**Enghreifftiau o'r mathau o luniau y gellid eu defnyddio i ysgogi dadl**







## Enghraifft 2 | Crefydd a bwyd

Gan ddefnyddio DVD eclips y BBC *Addysg Grefyddol: Addysg Ryfeddol*, cafodd dysgwyr Blwyddyn 12 eu cyflwyno i gystadleuaeth goginio lle mae grŵp o gystadleuwyr yn anwybyddu rheolau bwyd crefyddol a diwylliannol eu cwsmeriaid gyda chanlyniadau trychinebus. Ar ôl archwilio'n weithredol i'r materion sy'n codi yn y DVD, mae'r dysgwyr yn cael cyflwyniad dan arweiniad yr athro a gwaith rhyngweithiol ar fwyd crefyddol a chyfreithiau dietegol. Mewn grwpiau, maen nhw'n gweithio i ddatblygu bwydlen addas ar gyfer dathliad crefyddol ac yn cynllunio ei gweithredu.

Roedd yr adran technoleg bwyd wedi gweithio gyda'r grwpiau a darparu sesiwn blasu bwyd diwylliannol lle yr ymchwiliwyd ymhellach i'r rhesymau dros fwyd crefyddol a chyfreithiau dietegol. Roedd archwilio credoau a dysgeidiaethau crefyddol yn ymwneud â chyfreithiau bwyd wedi codi materion fel arferion ffermio, lles anifeiliaid a bwydydd wedi'u haddasu'n enetig. Cafodd y materion hyn eu dadlau'n weithredol a'u hategu gyda chyflwyniad gan sefydliad er lles anifeiliaid a sefydliadau sy'n sicrhau cyflogau ac amodau teg i weithwyr yn y trydydd byd. Roedd y cyflwyniadau hyn wedi codi materion moesegol mwy cyffredinol am y byd naturiol a phethau byw o fewn pob crefydd.

Roedd yr heriau a gododd yn ystod y ddadl wedi galluogi'r dysgwyr i greu cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa briodol, gan ddangos bod bwyd yn golygu mwy na dim ond blas neu gost i ymlynwyr crefyddol, a'i fod yn ymwneud â chred. Mae posibiliadau mawr gan y cwrs hwn oherwydd ei fod yn addysgu'r dysgwyr yn gyffredinol am bobl yng Nghymru, Ewrop a'r Byd, ond gall hefyd gyfoethogi agweddau eraill ar y cwricwlwm. Er enghraifft, gallai'r adran technoleg bwyd greu cystadleuaeth goginio debyg gyda'r dysgwyr yn creu'r bwyd ac yn cael eu barnu hefyd ar ei briodoldeb crefyddol/diwylliannol gan ddefnyddio'r meini prawf a gynlluniwyd yn y gwersi addysg grefyddol. Gallai'r gwaith ar ffermio moesegol, ac ati gael ei estyn i archwilio globaleiddio ac ôl troed carbon a chreu gweithgareddau trawsgwricwlaidd sy'n cysylltu â'r adrannau daearyddiaeth a busnes. Er mwyn codi ymwybyddiaeth a hybu cydlyniad cymunedol, gallai'r dysgwyr drefnu diwrnod ymwybyddiaeth grefyddol/ddiwylliannol lle mae bwydydd crefyddol a diwylliannol, dawns a cherddoriaeth yn cael eu rhannu a'u hybu.

**Enghreifftiau o eclips y BBC *Addysg Grefyddol: Addysg Ryfeddol***



## Dull cyflwyno – Rhaglen gyfoethogi'r cwricwlwm ehangach

Er mwyn ategu sesiynau addysg grefyddol rheolaidd yn ystod cyfnodau tiwtorial wythnosol, mae'r ysgol yn cynnig rhaglen gyfoethogi'r cwricwlwm. Trwy gydol y flwyddyn mae'r sesiynau addysg grefyddol yn cael eu hategu gan weithgareddau ymwybyddiaeth gymunedol gydag ymrwymiad parhaus i gyflenwi 'prydau ar glud' i'r henoed lleol a chynnal gweithgareddau codi arian rheolaidd, fel boreau coffi ar gyfer Cymorth Cristnogol[4], hosbis plant lleol, ac ati. Yn ogystal, ar ôl yr arholiadau UG mae un diwrnod llawn yr wythnos yn cael ei neilltuo am bum wythnos ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi. Mae rhai o'r cyfnodau awr yn ymwneud yn uniongyrchol â gyrfaoedd a byd gwaith, ABCh ac addysg grefyddol.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Beth yw'r safbwyntiau byd-eang ar gyfiawnder a chydraddoldeb?
- Beth yw'r rhwystrau economaidd ac ymarferol i sicrhau cyfiawnder a chydraddoldeb?
- Sut gall rhagdybiaethau a rhagfarn gael eu herio?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Beth yw'r safbwyntiau crefyddol ar gyfiawnder a chydraddoldeb?
- Sut gall rhagfarn grefyddol gael ei hatal a sut gall crefyddau gynnal hawliau a chyfrifoldebau unigolion?

**Ymateb personol:**
- Pa heriau ydym ni'n eu hwynebu heddiw o ran cyfiawnder, cydraddoldeb, rhagfarn a gwahaniaethu?
- Pa benderfyniadau allwn ni eu gwneud fel unigolion i wneud gwahaniaeth?

Fel rhan o gyfraniad addysg grefyddol i'r gweithgareddau cyfoethogi pum wythnos, gwahoddir sawl siaradwr gwadd o ddarparwyr addysg uwch ac elusennau i siarad am bynciau cysylltiedig ag addysg grefyddol. Mae siaradwr o Gymorth Cristnogol yn ymweld â'r ysgol i roi mewnbwn ar gyfiawnder, yr economi fyd-eang a masnach deg. Yn dilyn y sesiwn hon mae gwahanol safbwyntiau crefyddol yn cael eu hymchwilio a'u trafod mewn grwpiau.

4. Gwefan Cymorth Cristnogol ar gyfer athrawon: www.christianaid.org.uk/ ac ar gyfer pobl ifanc 18 i 25: www.myplatform2.com

Defnyddir efelychiadau cyfrifiadurol i ddehongli ystadegau ar ffurf mapiau byd-eang. Mae'r Peters Projection[5] yn cynnig map arall o'r byd lle mae Affrica ac India yn fwy byth o'u cymharu â Phrydain nag ar fap traddodiadol. Mae ystadegau economaidd yn darparu map gwahanol lle mae Prydain yn enfawr ac mae'r gwledydd tlotach yn lleihau. Mae ystadegau poblogaeth yn newid cyfrannau'r map unwaith eto. Yn ystod y sesiwn hon mae'r dysgwyr yn cael eu hannog i gwestiynu rhagdybiaethau derbyniol o 'wirionedd' a 'realiti' (fel y maen nhw'n cael eu cyfleu trwy'r mapiau), ond hefyd pa mor anghyfartal yw lledaeniad cyfoeth. Mae crefyddau'n dysgu bod angen i ni weithredu yn wyneb anghyfiawnder a thlodi. Anogir y dysgwyr i wneud gwaith ymchwil ar sut y mae crefyddau'n credu y gellir creu cymdeithas gyfiawn a chyfartal a cheisio datrys problemau trwy chwarae rôl.

Mae addysgwr Mwslimaidd yn ymweld â'r ysgol gan ddefnyddio Powerpoint effeithiol iawn sy'n herio stereoteipio. Er enghraifft, mae'n gofyn i'r dysgwyr 'Pwy sy'n gwisgo twrbanau?' a 'Pha fenywod sy'n gwisgo sgarffiau?' Mae'n esbonio nad yw twrbanau yn cael eu gwisgo gan Siciaid yn unig, ac nid dim ond menywod Mwslimaidd sy'n gwisgo sgarffiau; mae Mwslimiaid mewn rhai gwledydd yn gwisgo twrbanau ac mae menywod Cristnogol Uniongred yn gwisgo sgarffiau mewn rhai gwledydd. Mewn grwpiau gofynnir i'r dysgwyr restru (yn ddienw) pump cwestiwn neu farn am Islam yr hoffen nhw i'r siaradwr ymateb iddyn nhw. Gofynnir y cwestiynau i'r siaradwr gan gadeirydd sy'n arwain y trafodaethau sy'n sicr o ddilyn. Fel rhan o ymarfer Sgiliau Allweddol mae'r dysgwyr yn gwneud gwaith ymchwil ar Islam.

### Enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau a ofynnwyd gan y dysgwyr

- Ydy Allah yr un Duw â Duw Cristnogion ac Iddewon?
- Pam mae menywod Mwslimaidd yn gwisgo'r hijab?
- Beth mae'r gair jihad yn ei olygu?
- Sut beth yw hi i fod yn Fwslim? Ydy hi'n anodd gweddïo pum gwaith y dydd a bwyta bwyd halal?
- Ydych chi'n meddwl bod syniadau pobl am Islam yn wahanol ers 9/11?

5. Cynlluniwyd map byd newydd gan Arno Peters. Mae'n honni bod hwn yn ddehongliad mwy cywir o'r mas tir. Gellir dod o hyd i hwn drwy'r rhyngrwyd.

## Dull cyflwyno – Gwersi tiwtorial y Craidd Dysgu wedi'u hamserlennu

Mae rhai ysgolion yn defnyddio cyfnodau tiwtorial i ateb eu rhwymedigaethau statudol ar gyfer addysg grefyddol a fydd wedi'u pennu yn y maes llafur cytûn lleol. Er mwyn i'r math hwn o ymagwedd lwyddo, mae cynllunio gofalus, darparu adnoddau a monitro yn hanfodol. Er mwyn gwella cymhelliant, rhaid i'r deunyddiau a ddarperir fod yn berthnasol ac yn ysgogol a rhaid cael canlyniad penodol, gwerth chweil y mae'r dysgwyr yn teimlo bod pob aelod o'r staff yn ei werthfawrogi.

Mae'r ysgol hon yn llwyddo i ddefnyddio cyfnodau tiwtorial beunyddiol wedi'u hamserlennu i weithredu addysg grefyddol statudol a chyfoethogi'r cwricwlwm.

**Cwestiynau sylfaenol:**

- Pa heriau sy'n wynebu pobl mewn cymdeithas heddiw?
- Sut mae safbwyntiau crefyddol yn perthnasu â'r heriau hyn?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**

- Safbwyntiau Cristnogol a dau safbwynt crefyddol arall ar werth a sancteiddrwydd bywyd, a dioddefaint.

**Ymateb personol:**

- Pa heriau ydym ni'n eu hwynebu heddiw o ran cydraddoldeb, moesoldeb, ysbrydolrwydd a dioddefaint?


Er mwyn bodloni gofynion y Craidd Dysgu 14–19 a phwysleisio manteision/pwysigrwydd addysg grefyddol Ôl-16 yn yr ysgol hon, penderfynwyd y byddai gofynion y maes llafur cytûn lleol yn cael eu cynnwys mewn sesiynau tiwtorial y chweched dosbarth sy'n para 35 munud. Datblygwyd rhaglen ddwy flynedd a oedd yn cynnwys: tlodi a phroblem dioddefaint, erthylu a sancteiddrwydd bywyd, mudiadau crefyddol a'u cynrychiolwyr, hiliaeth a chrefydd. Er bod meini prawf addysg grefyddol yn ganolog i'r broses, mae'r gwaith a wna'r dysgwyr hefyd yn gweithredu rhan o'r agenda AGCh a Sgiliau Allweddol ar gyfer y grŵp oedran hwn (gan gynnwys cwrs achrededig).


Er mwyn hybu'r sgiliau a nodwyd yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, cynhyrchwyd pecynnau gwybodaeth ar y materion gan gynnwys agweddau crefyddol amrywiol i ennyn diddordeb a herio a chynorthwyo tiwtoriaid dosbarth sy'n darparu'r rhaglen.


Ar ddechrau pob pwnc gwahoddir siaradwr arbennig sy’n cynrychioli safbwynt crefyddol yn aml, er enghraifft CAFOD (Y Gronfa Gatholig ar gyfer Datblygiad Tramor) a grŵp sydd yn hybu ymwybyddiaeth Islam i’r ysgol i rannu eu safbwyntiau ar y materion. Mae’r chweched dosbarth cyfan yn gwrando ar y cyflwyniad hwn sy’n cymryd sesiwn tiwtorial cyfan.

Yn dilyn y sesiwn ragarweiniol hon, rhoddir cyfle i’r dysgwyr ymdrin â’r pwnc trwy ddefnyddio’r ystod o ddeunyddiau sydd ar gael yn y pecynnau gwybodaeth parod. Mae pob pecyn astudio hunangymorthedig yn cynnig modd i grwpiau o ddysgwyr archwilio agwedd ar y pwnc. Mae sawl agwedd ar y pwnc yn cael ei hastudio. Mae pob pecyn yn gofyn i’r dysgwyr ystyried cwestiwn sylfaenol trwy ymchwilio a thrafodaeth berthnasol; archwilio’r credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) priodol sy’n cael eu codi gan y siaradwr; cyfnerthu’r rhain trwy waith ymchwil a mynegi ymatebion personol mewn ffordd wybodus. Fel arfer bydd y dysgwyr yn dilyn yr ymchwiliad a’r gwaith trafod trwy gyfleu eu syniadau a’u casgliadau trwy gyflwyniadau llafar a gweledol creadigol.

**Enghreifftiau o waith grŵp dysgwyr**




BARN CRISTNOGION AM ERTHYLU
EGLWYS LOEGR
yn y byd modern mae Eglwys Loegr yn cydnabod bod erthylu'n bwnc dyrys a bod gan bobl wahanol ddaliadau.
Mae barn Eglwys Loegr am erthylu'n seiliedig ar ddysgeidiaeth Duw serch hynny maent wedi newid eu daliadau fymryn gyda threigl amser.
Heddiw mae Eglwys Loegr yn dal i wrthwynebu erthylu yn gyffredinol; fodd bynnag, maent yn cydnabod ei fod yn dderbynniol mewn rhai amgylchiadau dan amodau cyfyngedig iawn sy'n canolbwyntio ar amgylchiadau'r fam ar ôl awdd bywyd a fyddai ar gael i'r plentyn. fodd bynnag, mae Eglwys Loegr bob amser yn awyddus i sicrhau y cyflawnir erthyliadau mor gynnar ag sy'n bosibl, a chadarnhawyd y safbwynt cyffredinol hwn gan gorff llywodraethol yr Eglwys.
HANES
Seilir yr athrawiaeth hon hefyd ar ddamcaniaeth cyfraith naturiol Tomos o Acwin
YSAFBWYNT CYFREDOL
EGLWYS GATHOLIG RUFAIN
Cred yr Eglwys Gatholig fod bywyd dynol yn dechrau wrth feichiogi a bod achosi erthyliad yn fwriadol yn gamwedd moesol difrifol.
Mae'r safbwynt hwn ar erthylu'n deillio o ddysgeidiaeth yn y Beibl, yn benodol y gorchymyn "Na ladd". Mae sawl dysgeidiaeth arall hefyd sy'n cyfeirio at sancteiddrwydd bywyd: "Duw yn unig yw Arglwydd bywyd a marwolaeth ac nid oes gan fodau dynol ddim hawl i gymryd bywyd". Fel th adnabûm cyn dy eni.
Ym 1995 ysgrifennodd y Pab Ioan Pawl II ddysgeidiaeth o'r enw Evangelism Vitae (Efengyl Bywyd) lle datganodd safbwynt sylfaenol yr Eglwys: Cadarnhaf fod lladd bod dynol diniwed yn union gyrchol a gwirfoddol bob amser yn ddifrifol anfoesol, o'r enryd y dechreu a bywyd unigryw mae'r nodweddion sydd yn peri ein bod yn unigolion i gyd wedi'u gosod i lawr yn y cod genynnol a ddaw i fodolaeth bryd hynny.


Iddewiaeth
Dim ond am resymau difrifol y caniateir erthylu, e.e. os yw bywyd y fam mewn perygl. Maen nhw'n credu mai bywyd y fam sydd bwysicaf
Ystyrir pob achos ar ei rinweddau ei hun a gwneir y penderfyniad wedi ymgynghori â rabbi.
Dyma gredoau Iddewiaeth:
mae lladd ffetws yn torri gorchymyn Duw i boblogi'r byd.
mae lladd ffetws yn difa rhywbeth a grëwyd ar ddelw Duw.
mae lladd ffetws yn difa rhywbeth a allai fodoli fel bod dynol
mae lladd ffetws yn weithred anafus na ellir ei chyfiawnhau
camwedd yw anafu eich hun.
Yn ôl Mishnah: Pwy bynnag a ddifa un bywyd, mae fel pe bai wedi difa byd cyfan, a phwy bynnag a gadwo fywyd mae fel pe bai wedi cadw'r byd cyfan.
Mae sancteiddrwydd bywyd o bob math yn ddiymwad (tebyg i Gristnogaeth)
Nid oes cyfeiriad penodol at erthylu yn y Beibl Hebraeg
Mae dadleuon Iddewiaeth ynglŷn ag erthylu'n ymwneud yn bennaf â'r gwahaniaeth rhwng lladd rhywun sy'n fod dynol cyflawn a rhywun nad yw'n fod dynol mor gyflawn.

## Dull cyflwyno – Cynhadledd undydd flynyddol

Mae sawl ysgol wedi penderfynu mai'r ffordd orau i ysgogi dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg yw cynnal cynhadledd chweched dosbarth flynyddol neu dymhorol i ychwanegi darpariaeth rheolaidd addysg grefyddol. Fel arfer bydd y cynadleddau hyn yn canolbwyntio ar un thema ganolog sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwestiwn sylfaenol. Mae cynadleddau o'r fath yn ceisio cynnwys ac ennyn brwdfrydedd y dysgwyr trwy wneud dysgu yn hwyl a thrwy ddefnyddio dysgu gweithredol, gweithgareddau creadigol a datrys problemau. Yn aml bydd ysgolion yn gwahodd siaradwyr allanol o grwpiau crefyddol neu elusennau, perfformwyr proffesiynol (sy'n ymwneud â drama grefyddol, dawns, drymio, ac ati) neu gyflwynwyr sy'n cael mynediad at adnoddau neu fethodoleg arbennig.

### Enghraifft 1 | Defnyddio darparwr allanol masnachol

Er mwyn bodloni gofynion y maes llafur cytûn lleol, bydd ysgolion yn aml yn ategu cynhadledd flynyddol ysbrydoledig gyda gweithgareddau a thasgau sy'n cael eu darparu yn ystod gwersi addysg grefyddol wedi'u hamserlennu, cyfnodau tiwtorial wedi'u neilltuo'n arbennig ar gyfer addysg grefyddol neu elfen addysg grefyddol y dyniaethau.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Pa heriau fydd gwleidyddion yn eu hwynebu wrth ddewis sut i weithredu?
- Sut mae safbwyntiau crefyddol yn perthnasu â'r heriau hyn?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Safbwyntiau Cristnogol a dau safbwynt crefyddol arall sy'n darparu mewnwelediad i'r heriau a wynebir gan benderfynwyr gwleidyddol.

**Ymateb personol:**
- Pa heriau gwleidyddol ydym ni'n eu hwynebu heddiw?
- Faint o ddylanwad all unigolion ei gael ar y broses wleidyddol?
- Pa heriau fydd safbwyntiau crefyddol yn eu codi o ran gwneud penderfyniadau gwleidyddol?

Er mwyn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol Ôl-16, fel sy'n ofynnol gan y maes llafur cytûn lleol, mae'r ysgol yn cynnal cynhadledd dymhorol ac yn gwneud gwaith dilynol i hybu addysg grefyddol. Trefnir y cynadleddau gan aelodau staff yn aml, ond yn yr achos arbennig hwn penderfynodd yr ysgol wahodd darparwr allanol o Damaris[6] i arwain y diwrnod gan ddefnyddio pecyn TGCh 'Llywydd am y Dydd'.

Cyflwynwyd sawl thema yn ystod y diwrnod, sef beth sy'n gwneud bywyd yn werthfawr? All y byd fod yn deg? Ym mha ffyrdd (a pham) y bydd pobl yn dioddef? Pam ydym ni yma? A all crefydd gymell pobl i helpu eraill? Yn ystod y diwrnod, cyflwynwyd y themâu trwy glipiau DVD rhyngweithiol yn seiliedig ar senarios o wlad ffug yn Affrica. Roedd yr arweinydd o Damaris wedi cychwyn dadl a darparu gwybodaeth am yr ymatebion crefyddol i'r materion sy'n codi. Cafodd y senarios eu dadlau mewn grwpiau ac ar ôl gwneud penderfyniad roedd pob grŵp wedi cyflwyno eu safbwynt yn gyhoeddus, gan efelychu'r prosesau gwleidyddol a ddefnyddir yn Nhŷ'r Cyffredin. Roedd pob aelod o'r gynhadledd wedi pleidleisio ar y materion dan sylw.

Yn dilyn y cyflwyniadau a'r bleidlais, roedd y cyflwynydd wedi dangos clip fideo newydd, gan esbonio'r hyn a fyddai'n digwydd pe byddai'r penderfyniadau a wnaed yn cael eu dwyn i'w casgliad rhesymol. Ceisiwyd annog y dysgwyr i gynnal dadl ar y senario newydd a darparwyd deunyddiau crefyddol newydd iddyn nhw eu hymchwilio. Roedd y broses o ymchwilio, dadansoddi a dadlau wedi cynyddu'r her a gorfodi'r dysgwyr i ddefnyddio sgiliau meddwl lefel uwch a chydnabod cymhlethdod y materion a ddaeth i'r amlwg.

Er mwyn bodloni'r gofynion statudol fel y'u nodwyd yn y maes llafur cytûn ac adeiladu ar lwyddiant y gynhadledd, roedd yr athro wedi darparu gwaith prosiect ychwanegol i'r dysgwyr.


6. www.damaris.org ac www.presidentforaday.org

## Chweched dosbarth yn y gynhadledd





## Enghreifftiau o waith grŵp




## Rhai o sylwadau'r dysgwyr

- Rwy wedi dysgu sut y galla i wneud gwahaniaeth i dlodi.
- Rydym ni mewn sefyllfa well na'r rhan fwyaf o'r bobl yn y byd ac rwy'n meddwl bod hynny'n golygu bod cyfrifoldeb arnom i helpu eraill.
- Rwy wedi dysgu y gall dadl fod yn gylch cythreulig.
- Mae'n anodd bod yn llywydd a gwneud penderfyniadau.
- Rwy eisiau sefyll lan am y bobl sy'n methu sefyll lan drostyn nhw eu hunain.

## Enghraifft 2

Mae consortiwm o athrawon yn Ynys Môn a Gwynedd wedi cyfuno adnoddau i baratoi pecyn y gellid ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynhadledd chweched dosbarth flynyddol a fyddai'n cyfoethogi eu hagweddau eraill at addysg grefyddol statudol Ôl-16.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Ydy crefydd yn rym cydlynol neu ymrannol?
- Pa heriau ydy crefyddau yn eu hwynebu?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Safbwynt Cristnogol a dau safbwynt crefyddol arall ar ddyheadau a realiti crefydd

**Ymateb personol:**
- Beth yw ymateb crefyddol i faddeuant?
- Pa heriau ydym ni'n eu hwynebu mewn cymdeithas heddiw?
- Sut ydym ni'n dirnad y negeseuon sy'n cael eu cyfleu i ni trwy'r cyfryngau?

Y cwestiwn sylfaenol sy'n codi yn y pecyn yw 'Crefydd – grym cydlynol neu ymrannol?'. Fel rhan o'r cwrs caiff dysgwyr gyfle i ystyried trwy ymchwilio a gwerthuso agweddau cadarnhaol a negyddol ar grefydd sydd i'w gweld yn aml yn y penawdau newyddion. Mae'r dysgwyr yn cymharu adroddiadau ac yn llunio barn wybodus ar realiti neu synwyriadaeth y gwrthdaro, terfysgaeth, cyltiau a digrifwch amharchus a welir yn y penawdau newyddion.

Er mwyn cael mewnwelediadau dilys, gwybodus, mae'r dysgwyr yn cael cyfle i archwilio'n fanwl gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddau ac ystyried a yw'r penawdau yn adlewyrchu dyhead a realiti crefydd. Maen nhw'n creu rhestr wirio o ddelfrydau crefyddau ac yn dadlau pam y maen nhw'n cael eu gwyrdroi weithiau i ddiben llai moesol a phwy sy'n eu gwyrdroi. Maen nhw'n ymchwilio i rai pobl sy'n mynd yn groes i'r ddelwedd negyddol o grefydd fel Martin Luther King, Yr Archesgob Desmond Tutu, Oscar Romero, Mahatma Ghandi a'r Dalai Lama. Maen nhw'n ystyried y rhinweddau crefyddol sy'n eu gwneud nhw'n arbennig a'r ffordd y cawsan nhw eu portreadu yn y cyfryngau. Mae'r dysgwyr yn ymchwilio ac yn cyflwyno amrywiaeth o safbwyntiau am grefydd a'r ffordd y caiff ei phortreadu yn y cyfryngau. Mewn grwpiau maen nhw'n creu ymgyrch hysbysebu i greu darlun mwy realistig o ymrwymiad crefyddol yn y wlad hon heddiw.

Mae'r dysgwyr yn ystyried delfryd grefyddol fel maddeuant ac yn archwilio ystod o astudiaethau achos heriol sy'n dangos pa mor anodd yw maddeuant weithiau, a sut y bydd pobl yn cael y nerth i faddau'r troseddau mwyaf erchyll. Mae'r dysgwyr yn defnyddio'r astudiaethau achos i greu cyflwyniad gan roi ymateb personol, craff, wedi'i ymchwilio'n dda i'r syniad o faddeuant a'r rhan y gall crefydd ei chwarae yn y broses.

**Enghraifft o lun a dynnwyd yn syth ar ôl y bomiau yn Llundain ar 7 Gorffennaf i ysgogi dadl am faddeuant**



## Dull cyflwyno – Cynhadledd flynyddol i gefnogi dewisiadau arholiad

Yn ogystal â bod yn gyfle i ymgeiswyr dynnu ar ystod a dyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc, mae'r uned synoptig mewn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu'r Sgiliau Allweddol ehangach sydd eu hangen ar gyfer dysgu annibynnol, gwella'ch perfformiad eich hun a datrys problemau.

Mae'r ysgol hon wedi dechrau cynnal cynhadledd undydd flynyddol ym mis Chwefror i ategu addysg grefyddol wedi'i hamserlennu.

**Cwestiynau sylfaenol:**

- Beth yw'r agweddau crefyddol at fywyd, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**

- ymchwilio i safbwyntiau Cristnogol, Bwdhaidd, Mwslimaidd ac Iddewig er mwyn archwilio'r cwestiwn sylfaenol o ystyr a phwrpas bywyd a marwolaeth.

**Ymateb personol:**

- Sut mae credoau am werth bywyd, ac ystyr a phwrpas marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth yn dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad pobl o ran byw bywyd i'r eithaf?

Mae'r uned synoptig yn gofyn i ymgeiswyr wneud gwaith ymchwil unigol a dwyn ynghyd dysgu o'r cwrs astudio dwy flynedd. Felly mae'n gofyn am ymagwedd wahanol, arloesol.

Dechreuodd y diwrnod gydag amlinelliad o'r gweithgareddau a gafodd eu cynllunio a chrynodeb o ofynion yr uned synoptig. Yn ystod y sesiwn bore cafodd pob grŵp wybodaeth am Fwdhaeth, Iddewiaeth, Cristnogaeth, Islam a Moeseg a chafodd pob dysgwr becyn gwybodaeth gyda gwybodaeth sylfaenol am bob crefydd, llyfryddiaeth a rhestr o gyfeiriadau gwefan er mwyn iddyn nhw wneud eu gwaith ymchwil eu hunain.

Yn y prynhawn cawsan nhw amlinelliad o'r dasg yr oedd yn ofynnol iddyn nhw ei hymchwilio a rhoi cyflwyniad arni yn ystod y sesiwn nesaf ym mis Ebrill. Gwnaethpwyd gwaith paratoi/cynllunio pellach ac roedd y myfyrwyr wedi treulio peth amser yn y llyfrgell.

Ym mis Ebrill, yn ystod sesiwn y bore, rhoddodd y dysgwyr gyflwyniad deg munud i'w cyfoedion ar y gwaith yr oedden nhw wedi'u hymchwilio. Yn ystod y sesiwn hon roedd yr athrawon wedi rhoi deunyddiau ychwanegol iddyn nhw ar agweddau crefyddol at fywyd, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth, er mwyn iddyn nhw allu ychwanegu haenen newydd o fewnwelediad i'w gwaith ymchwil a gwella eu cyflwyniadau ymhellach. Cafodd y gyfres olaf o ddeunyddiau a baratowyd gan yr ymgeiswyr ei rhoi mewn plygell a chafodd pob ymgeisydd gopi o'r plygell a oedd wedi'u helpu ymhellach i baratoi ar gyfer yr uned synoptig.

**Enghraifft o ddialog dychmygol un dysgwr**

**Ema**: Yn olaf wnaethon ni edrych ar y safbwyntiau crefyddol: Yn ol Cristnogion mae'r stori'r creu yn y Beibl yn dweud bod dynion wedi cael y gwaith o edrych ar ôl y byd a'i greuadiriaid. Hynny yw rhaid i ni ofalu am y Byd i Dduw.

**Mathew:** Credai'r Cristnogion mewn Stiwardiaeth sef gofalu am rywbeth.
Duw sydd bua'r anifeiliaid, ond gofynnir i ni ofalu amdanynt dros dro. Felly yn ôl Cristnogion mae'n anghywir i arbrofi ar anifeiliaid neu fod yn greulon iddynt.

**Ffion**: Hindŵaeth: Gan fod Hindwaid yn credu bod gan bopeth byw atman, sef enaid, maen nhw'n credu bod pob bywyd yn werthfawr ac yn gysegredig ac ni ddylid niweidio unrhyw beth - gan gynnwys anifeiliaid.

## Dull cyflwyno – Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ddatblygu eu sgiliau mewn addysg grefyddol. Mae'r sgiliau a nodwyd ar gyfer dysgwyr 14 i 19 yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 13 i 19 oed yng Nghymru* yn debyg i nifer o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer Bagloriaeth Cymru, yn enwedig o ran ymchwiliad unigol. Er enghraifft, mae'r fframwaith addysg grefyddol yn datgan y dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i:

> *weithio ar eu pennau eu hunain gydag eraill i greu rhagdybiaeth, defnyddio technegau datrys problemau, meddwl beirniadol, creadigol, greddfol a metawybyddiaeth ddatblygedig i werthuso ystod o dybiaethau, posibiliadau ac esboniadau.*

Mae'r Ystod a nodwyd yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 13 i 19 yng Nghymru* hefyd yn darparu cyfleoedd i ddatblygu pob un o bum cydran graidd Bagloriaeth Cymru: Sgiliau Allweddol; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Gysylltiedig â Gwaith; Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Ymchwiliad Unigol.

Gallai ysgolion ddefnyddio'r potensial a gynigir gan wersi addysg grefyddol statudol wedi'u hamserlennu i ddarparu rhaglen gyfoethogi atodol i'r dysgwyr hynny sy'n astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru, neu gallen nhw ddefnyddio dewis o gydrannau craidd Bagloriaeth Cymru i fodloni rhai o rwymedigaethau statudol addysg grefyddol.

**Sylwer:** yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru mae addysg grefyddol yn cael ei hystyried yn un o'r 'gofynion cwricwlwm penodol'.

### Enghraifft 1 | Addysg grefyddol fel rhan o elfen Addysg Bersonol a Chymdeithasol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae amserlennu creadigol yn sicrhau bod dysgwyr yn yr ysgol hon yn cael eu hawliau addysg grefyddol a bod modd manteisio ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd a'u defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol. Cynigiwyd agweddau eraill ar y dyfarniad mewn gwersi eraill yn y cwricwlwm.

**Cwestiynau sylfaenol:**

- Pa heriau sy'n wynebu pobl mewn cymdeithas heddiw?
- Sut mae safbwyntiau crefyddol yn perthnasu â'r heriau hyn?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**

- Safbwyntiau Cristnogol a dau safbwynt crefyddol arall sy'n darparu mewnwelediad i'r amrywiaeth o heriau a wynebir gan bobl mewn cymdeithas heddiw

**Ymateb personol:**

- Gwerthuso dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol ar wneud penderfyniadau.

Er mwyn rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr fodloni eu gofyniad addysg grefyddol statudol a wynebu 'heriau cymdeithas heddiw a helpu i ddatblygu perthynas â'r gymuned ehangach rydym yn byw ynddi' (yn ofynion ar gyfer y gydran ABCh), roedd y dysgwyr wedi chwarae gêm sy'n archwilio y credoau a'r gwerthoedd. Cyn i'r gêm ddechrau esboniwyd rheolau a phwrpas y gêm yn eglur, h.y. i helpu'r dysgwyr i archwilio eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain. Gan ddefnyddio dis, mae pob chwaraewr yn symud o gwmpas y bwrdd chwaraeon gyda'r nod o gasglu chwech tocyn lliw yr un. Pan fydd dysgwr unigol yn glanio ar ofynnod lliw gofynnir cwestiwn iddyn nhw o un o'r cardiau lliw ar y bwrdd. Ar ôl rhoi ateb mae nhw'n arwain trafodaeth i ddadlau priodoldeb yr ateb a roddwyd. Os yw'r chwaraewyr eraill yn fodlon â'r ymateb mae'r chwaraewr yn cael tocyn ac mae'r chwarae yn parhau.

Mae'r cardiau coch yn gofyn cwestiynau prawf personoliaeth ac yn darparu adborth penodol ar agweddau ar bersonoliaeth y chwaraewr unigol. Mae'r cardiau glas cyfyng-gyngor moesol yn annog y dysgwyr i feddwl trwy senarios amrywiol ac archwilio gwerthoedd moesol pob chwaraewr. Mae'r cardiau gwyrdd credoau yn archwilio credoau'r dysgwyr eu hunain a chredoau pobl o amryw o grefyddau. Mae cardiau gwyllt a chardiau gwybodaeth ffeithiol yn cael eu hychwanegu i greu mwy o gystadlu ac elfen o hwyl.

O ganlyniad i drafodaeth am werthoedd a chredoau a ysgogwyd gan y gêm rhaid i'r dysgwyr ysgrifennu cofnod dyddiadur. Mae'r cymwyseddau a gaffaelwyd o ganlyniad i chwarae'r gêm ac ysgrifennu'r cofnod dyddiadur yn cael eu casglu fel tystiolaeth a'u cyflwyno fel rhan o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Gallai deunyddiau a mewnwelediadau o'r gêm, os cawn nhw eu hategu gan wybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol o grefydd ac ati, gael eu datblygu a gweithredu fel ymchwiliad unigol y dysgwr.

**Enghraifft o ddysgwyr yn chwarae'r gêm**







Y gêm o Skills Challenge 2 gan Terence Copley ac Adrian Brown – addaswyd ac ailenwyd yn 'Dod i Nabod fi'.

**Sylwadau o ddyddiaduron y dysgwyr**

'Roeddwn i wedi mwynhau'r gêm oherwydd roedd rhai o'r cwestiynau wedi gwneud i mi feddwl am fy nghredoau ac roedd yn rhoi cyfle i bobl eraill oedd yn chwarae'r gêm gyda fi i weld sut rwy'n teimlo am y cwestiynau hyn.'

'Roedd y gêm wedi gwneud i mi feddwl am bethau doeddwn i erioed wedi'u cwestiynu o'r blaen...'

'Roedd y gêm wedi fy ngorfodi i wneud penderfyniadau am fy nghredoau ac mae wedi helpu fi i ddeall fy ngweithrediadau fy hunain.'

'Roedd y gêm wedi gwneud i mi feddwl yn ddyfnach nag rwy'n ei wneud fel arfer...'

## Enghraifft 2 | Addysg grefyddol fel rhan o'r Ymchwiliad Unigol o'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Yn yr ysgol hon mae'r adran addysg grefyddol yn defnyddio peth o'r amser addysg grefyddol statudol wedi'i amserlennu i roi cyfleoedd i ddysgwyr gwblhau agweddau priodol ar gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Cynigir agweddau eraill ar y dyfarniad mewn gwersi eraill yn y cwricwlwm.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Beth yw arwyddocâd crefyddau yng Nghymru heddiw?
- Pa amrywiaeth o fynegiant crefyddol sy'n bodoli yng Nghymru heddiw?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Mae amrywiaeth o enwadau Cristnogol a dau safbwynt crefyddol arall (er enghraifft Hindŵaeth a Bwdhaeth) yn darparu mewnwelediad i wahanol gredoau ac arferion crefyddol yng Nghymru.

**Ymateb personol:**
- Gwerthuso dylanwadau ar grefydd yng Nghymru.

Yn yr ysgol hon mae'r dysgwyr yn cael cyfle i gwblhau Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (Ôl-16) ac mae'r ysgol yn treialu'r Diploma Sylfaen a Chanolradd (Cyfnod Allweddol 4). Mae'r cymhwyster hwn yn gofyn i'r dysgwyr gynnal ymchwiliad unigol ar unrhyw bwnc sydd o ddiddordeb iddyn nhw, gan gynnwys deunydd ar gyfer y pynciau arholiad dewisol. Mae'r ymchwiliad yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig a chyflwyniad llafar wedi'u hategu gan gymhorthion gweledol, ystadegau a nodiadau'r siaradwr. Mae'r dysgwyr yn cael amlinelliadau manwl sy'n esbonio sut i gynllunio a chychwyn eu gwaith ymchwil a sut i gyflwyno eu casgliadau terfynol.

Mae'r adran addysg grefyddol, sy'n dymuno cefnogi eu myfyrwyr, yn eu helpu i adnabod tasg berthnasol i'w hymchwilio ac yn sicrhau bod adnoddau digonol ganddyn nhw. Os yw'r ymchwiliad unigol, yn ogystal â bodloni Dyfarniad Bagloriaeth Cymru, yn ceisio ateb gofynion y maes llafar cytûn lleol a'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 yng Nghymru*, yna mae'n rhaid darparu mwy nag astudiaeth gymdeithasegol o grefydd yn y Deyrnas Unedig. Felly, mae'n rhaid i athrawon sicrhau fel rhan o'r astudiaeth fod y dysgwyr yn ystyried yn fanwl y cwestiwn crefyddol neu ddynol sylfaenol a bod credoau, dysgeidiaethau ac arferion y crefyddau a astudir yn cael eu hystyried yn llawn a'u defnyddio fel ffynhonnell i lywio rhagdybiaethau.

Er enghraifft, roedd un dysgwr newydd astudio a oedd Cristnogaeth yn dirywio yng Nghymru. Er mwyn tynnu casgliadau, roedd y dysgwr wedi defnyddio amryw o ffynonellau anghrefyddol ar ffurf ystadegau, casgliadau ymchwil ac ati a oedd yn rhoi darlun o Brydain fwy amrywiol, aml-ffydd. Roedd yr adnoddau crefyddol a ddefnyddiwyd yn tynnu ar wybodaeth am gynnydd eglwysi efengylaidd annibynnol, dylifiad Cristnogion Uniongred a Chatholig o Ddwyrain Ewrop, a'r ffaith bod rhai Cristnogion wedi troi at grefyddau yr ystyrir eu bod yn fwy myfyriol. Yn olaf, roedd y dysgwr wedi cymharu sut y gallai credoau, dysgeidiaethau ac arferion gwahanol enwadau, crefyddau a phwysau seciwlar effeithio ar ymrwymiad crefyddol yng Nghymru heddiw.

**Ydy Cristnogaeth yn dirywio yng Nghymru?**

Nod fy ymchwiliad yw ystyried a fu lleihad yn y grefydd Gristnogol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac os bu lleihad, beth allai fod wedi achosi hyn a pha effaith allai hyn ei chael ar ddiwylliant a strwythur ein cymdeithas yma yng Nghymru. Roeddwn i eisiau ymchwilio i hyn oherwydd mae safle canolog crefydd mewn cymdeithas yn rhywbeth sydd o ddiddordeb mawr i mi, a hefyd rwy'n teimlo y bydd yn fy helpu yn ystod fy nghwrs addysg grefyddol U2 y flwyddyn nesaf. Hefyd bydd yn rhoi cyfle i mi wneud ychydig o waith ymchwil ar rai o'r rhaniadau cymdeithasol a allai effeithio ar boblogrwydd crefydd mewn siroedd amrywiol yng Nghymru.

## Dull cyflwyno – Sgiliau Allweddol

Gall addysg grefyddol fod yn gyfrwng gwych ar gyfer hybu a datblygu Sgiliau Allweddol gyda dysgwyr 14–19. Mae'r pwnc yn statudol ac, felly, dylai fod ar yr amserlen eisoes; mae gan addysg grefyddol y potensial i fod yn bwnc ysgogol, perthnasol a heriol; mae'n ymdrin â syniadau athronyddol a damcaniaethol a chwestiynau moesegol ac felly'n defnyddio rhai o'r sgiliau lefel uwch; mae'n hybu dysgu gweithredol a dadlau ac yn annog y dysgwyr i ystyried yn agored safbwyntiau a barn pobl eraill cyn dod i'w casgliadau gwybodus eu hunain. Felly, gallai addysg grefyddol fod yn brif gyfrwng gweithredu Sgiliau Allweddol yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg, yn anffurfiol neu'n ffurfiol, ar gyfer cymhwyster allanol.

Yn yr ysgol hon darparwyd rhan o ofynion y cymhwyster Sgiliau Allweddol trwy addysg grefyddol ac felly roedd y ddwy agwedd ar y cwricwlwm wedi elwa o'r astudiaeth gynhwysfawr hon. Cynigiwyd agweddau eraill ar y dyfarniad mewn gwersi eraill y cwricwlwm.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Beth sydd bwysicaf: y Bwdha neu ei ddysgeidiaethau?
- Ym mha ffyrdd oedd Bwdha a'i ddysgeidiaethau wedi effeithio ar ledaeniad Bwdhaeth?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Ymchwiliad i fewnwelediadau Bwdhaidd ar y mater hwn.

**Ymateb personol:**
- Gwerthuso ar ba sail y bydd unigolion yn gwneud penderfyniadau am eu bywydau
- Ydy egwyddorion eglur (fel rhai Bwdhaeth) yn helpu neu'n rhwystro prosesau gwneud penderfyniadau pobl?

Cafodd Astudiaethau Crefyddol ei ddefnyddio fel ffordd o ddarparu gwaith ar gyfer elfennau cyfathrebu a TGCh y cymhwyster Sgiliau Allweddol. Yn ogystal, roedd y dysgwyr yn gallu darparu tystiolaeth o ddatblygu'r Sgiliau Allweddol sydd eu hangen ar gyfer Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich hun, Gweithio gydag Eraill a Datrys Problemau.

Roedd yr uned cyfathrebu yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau dadansoddi, dadlau a gwerthuso. Y pwnc a ddewiswyd i'w ddadlau oedd – 'P'un sydd bwysicaf – y Bwdha neu ei ddysgeidiaethau?'

Er mwyn cael dadl o ansawdd, roedd angen paratoi. Roedd rhaid i bob dysgwr neu grŵp ymchwilio i farn yr ysgol o'i dewis ar Fwdhaeth a hefyd farn ysgol wahanol (er mwyn iddyn nhw allu ymateb pan gawsan nhw eu herio). Roedd yr athro wedi cynllunio cyfres o dasgau i helpu'r dysgwyr i baratoi rhai o'u deunyddiau a'r bwriad yn y pen draw oedd y bydden nhw'n bwydo i mewn i'r ddadl. Cafodd y dysgwyr restrau adnoddau, gwefannau rhyngrwyd dibynadwy, mynediad i'r cyfrifiadur, ac ati.

Wrth baratoi ar gyfer y ddadl ffurfiol, roedd gofyn i'r dysgwyr baratoi eu dadleuon ymlaen llaw a darparu taflenni i'w dosbarthu i weddill y dosbarth. Cofnodwyd y ddadl a'i thrawsgrifio yn ddiweddarach gan y dysgwyr eu hunain.

Er mwyn sicrhau bod y portffolio yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau, roedd yn ofynnol i ddysgwyr unigol gynhyrchu cyflwyniad ar ledaeniad Bwdhaeth. Argraffwyd y nodiadau, yr erthygl o'r cylchgrawn, y daflen a'r sleidiau Powerpoint fel tystiolaeth ar gyfer y portffolio.

Ar gyfer eu portffolio TGCh, roedd rhaid i'r dysgwyr greu cronfa ddata, anfon a derbyn e-bost, creu llythyr postgyfuno a chreu taenlen. Cafodd y dystiolaeth hon ei chynnwys yn y portffolio a gyflwynwyd i'r corff dyfarnu. Mae'n rhaid i dasg lwyddiannus ar gyfer anghenion TGCh gael cyd-destun realistig a gwerth chweil a gall Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch ddarparu cyd-destun gwych.

**Enghraifft o daflen gofnodi TGCh dysgwr**

**Pwnc/Pwrpas** Ymchwilio i rôl ac arwyddocâd mynachaeth Bwdhaeth yng nghyd-destun y Sangha.

| Y wybodaeth a gafwyd | Ffynhonnell gwybodaeth | Sut gwnaed yr ymchwil a dethol y wybodaeth |
|---|---|---|
| Crefydd gwledydd a dwysedd poblogaeth y gwledydd yn Asia (Adran C tudalen 6) | Microsoft Encarta Interactive World atlas 2000 | Rwyf wedi defnyddio'r rhaglen atlas hon nifer o weithiau yn y gorffennol gan ei bod yn cynnwys bron popeth y gallech fod ei angen am wlad. Dewisais y materion o fapiau. |
| Ystadegau ar boblogaethau Bwdhyddion mewn gwledydd gwahanol a gwybodaeth am weithdrefnau derbyn | http://www.buddhanet.net | Drwy'r chwilotwr 'Mamma' (print sgrîn 1). Roedd y wybodaeth wedi'i nodi mewn ffordd glir, cryno a dealladwy. |
| Y broses o greu'r Sanga a'i hanes. | 'A students approach to world religions – Buddhism' Denise Cush | Fe soniodd fy athro Addysg Grefyddol am y llyfr hwn gan fod gan yr awdur enw da fel awdur ardderchog. Dewisais wybodaeth a oedd yn berthnasol i mi. |
| Rhagor o wybodaeth am greu'r Sangha a'i hanes. | 'Teach Yourself – World Faiths – Buddhism' Clive Erricker | Rwyf wedi defnyddio llyfrau 'Teach Yourself' eraill felly es ati i ddarllen y llyfr hwn. Dewisais wybodaeth a oedd yn berthnasol i mi. |
| Gwybodaeth am ffordd o fyw mynachod Tibet | 'The Basics of Buddhism' Herbert Ellinger | Pan roeddwn yn edrych yn y llyfrgell Addysg Grefyddol, roedd gan y llyfr hwn adran gyfan ar y pwnc roeddwn yn chwilio amdano. |
| Gwybodaeth a weithdrefnau ymmymuso Tibet | http://www.Khandro.net | Fe wnes i chwiliad manwl gan ddefnyddio'r chwilotwr Mamma a llwythais y wybodaeth angenrheidiol i lawr (print sgrîn 16-17) |
| Delweddau o 'Torma' (Adran a tudalen 7) | http://www.people.virginia.edu/~h12m/amita3.html | Teipiais 'torma' yn chwilotwr Yahoo a dewisais y ddelwedd roeddwn yn chwilio amdani |

**Pwnc/Pwrpas** Ymchwilio i rôl ac arwyddocâd mynachaeth Bwdhaeth yng nghyd-destun y Sangha.

**Tasgau**

Adran A yw cefndir hanesyddol y Sangha felly bydd angen i mi ddod o hyd i lyfrau perthnasol a gwefannau perthnasol hefyd o bosibl (yn dibynnu ar y wybodaeth y gallaf ddod o hyd iddi mewn llyfrau) ar hanes a chreu'r Sangha. Copïo'r wybodaeth a rhoi'r darnau gwahanol o wybodaeth a ymchwiliwyd iddi ynghyd. Teipio'r wybodaeth, a'i gwirio o ran sillafu a gramadeg. Gofyn hefyd i o leiaf ddau athro ddarllen dros y gwaith. Cywiro'r ddogfen a'i hargraffu eto.

Hefyd yn Adran A, ymchwilio i brosesu dwy ysgol wahanol yn Mwdhaeth o ddetholyn (penderfynu pa ddwy y gallaf ddod o hyd i fwyaf o wybodaeth amdanynt) - defnyddio'r rhyngrwyd fwy na thebyg gan y bydd yn cynnwys manylion dyfnach na llyfrau. Eto rhoi'r wybodaeth ynghyd, ei theipio, ei gwirio, gofyn i ddau berson arall ei gwirio, ei chywiro a'i hargraffu.

Bydd Adran B yn gylchlythyr ar ffordd o fyw Sangha a'u rôl yn y gymuned. Byddaf yn defnyddio Publisher neu Pressworks ar gyfer templed. Bydd angen dod o hyd i lyfrau a gwefannau perthnasol. Yna bydd yn rhaid dod â'r wybodaeth ynghyd yn rhesymegol a'i gwirio (sillafu a gramadeg) a'i phrawfddarllen gan ddau berson arall. (Efallai y bydd yn haws teipio yn 'Word' a thorri a gludo'r wybodaeth i Pressworks/Publisher)

Adran C yw lledaeniad Bwdhaeth. Bydd angen canfod (drwy lyfrau a'r rhyngrwyd) beth ddaeth â Bwdhaeth i'r gorllewin yn gyntaf a pham ei bod wedi aros. Rhoi'r wybodaeth ynghyd a'r gwirio. Pwyntiau eraill adran C yw'r ystadegau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â lledaeniad Bwdhaeth. O'r rhyngrwyd bydd angen gwneud chwiliadau manwl am ystadegau Bwdhaeth. Yn dibynnu ar ganlyniadau, llunio tabl(au) ar sut mae ymlynwyr Bwdhaeth yn cymharu â chrefyddau eraill blaenllaw'r byd. O'r tabl(au) llunio siartiau cylch/siartiau bar a nodi beth maent yn ei ddangos. Hefyd dod o hyd i ystadegau am ymlynwyr Bwdhaeth yn 'Buddhist Countries' (h.y. y ganran o'r boblogaeth yn y wlad honno sy'n dilyn Bwdhaeth). Unwaith eto yn Adran C, creu cronfa ddata (yna creu ymholiadau a gwneud adroddiad) ar ymlynwyr Bwddhaeth yn y DU - mae angen iddi fod yn helaeth ond efallai bod dwy wlad yn y DU yn ddigon helaeth ar y gronfa ddata, gwneud chwiliad am gyfeir-lyfrau Bwdhaeth yna llunio gwybodaeth neu'r manylion cyswllt i lawr er mwyn i mi allu ffonio/anfon e-bost neu ysgrifennu (mail merge) at y sefydliadau i gael gwybodaeth am ymlynwyr sy'n ddynion ac ymlynwyr sy'n ferched yn eu sefydliad.

Cadw pob darn o waith bras. Gweithdrefnau print sgrin. Creu llyfryddiaeth a rhanwyr adrannau.

**Enghraifft o erthygl ar gyfer cylchgrawn gan ddysgwr sy’n dangos gwybodaeth am y pwnc a chymhwysedd mewn sgiliau TGCh**

# ‘ER MWYN KARMA’

Rhifyn 6 Cyfrol 3

***4 Mai 2001***

## *DULL O FYW Y SANGHA HEDDIW*

### CROESO

Yn y pum rhifyn cyntaf, cyfrol 3 o ‘*ER MWYN KARMA*’ (i’r rhai ohonoch nad ydych yn ddarllenwyr selog ein cylchlythyr!) roeddem wedi edrych ar hanes Bwdhaeth, genedigaeth y Sangha, yr ysgrythurau gan gynnwys y rheolau a’r wahanol draddodiadau mewn Bwdhaeth (Theravada, Zen, Tibetaidd...), ac rydym wedi edrych ar y gwahanol fathau o ordeinio. Y mis hwn rydym yn edrych ar fywyd aelodau’r Sangha heddiw a’u rôl yn y gymuned ehangach.



### *Y DULL O FYW*

Er gwaethaf disgyblaeth bywyd mynach, roedd yn cael ei ystyried yn fywyd mwy rhydd na bywyd rhywun lleyg. Mewn trafodaeth gyda’r Brenin Ajatasattu, roedd y Bwda wedi cymharu bodolaeth seciwlar a mynachaidd, “Mae bywyd y sawl sy’n cadw cartref yn llawn rhwystrau. Mae’n llwybr llychlyd... Y bywyd anniben. Pan fydd yn troi’n fynach (Bhikkhu), mae’n mabwysiadu egwyddorion gweithgarwch corfforol a lleferydd da. Mae’n byw bywyd iach, gan ddilyn gwirebau moesol; mae’n effro, yn fodlon ac yn ymwybodol.” Mae patrwm bywyd mynachaidd yn cael ei seilio ar y rheolau a osodwyd yn y Vinaya – cod moeseg y Bwdhyddion. Mae hanfod y cod wedi’i gynnwys yn y deg gwireb, ac mae hyn yn parhau hyd heddiw.

### THERAVADA SANGHA

Mae mynachod sy’n dilyn y traddodiad Theravada yn gwneud addewid o ddiweirdeb, ac ni fydd y mynachod mwy egwyddorol yn cario nac yn cyffwrdd ag arian. Mae pob un o’r mynachod yn ceisio peidio â bod yn segur neu wastraffu egni trwy weithrediadau hunanfaldodus, fel cysgu neu sgwrsio diangen. Mae pob un ohonynt wedi’u rhwymo gan wirebau a rheolau niferus, mae’n rhaid iddynt fod yn wyliadwrus o’r hyn a wnânt trwy’r amser a gallu derbyn graddfa uchel iawn o gyfyngu.

Mae hierarchaeth yn bwysig yn y traddodiad hwn hefyd. Os cafodd mynach ei ordeinio cyn chi, yna mae ef yn uwch na chi ac wrth ei gyfarch dylai mynach is ymgrymu a dangos parch dyledus.

### *Y DREFN BOB DYDD*

Mae’r drefn a ddisgrifir isod wedi’i gymryd o fynachlog Theravada Prydeinig.

4.00am – Mae’r mynachod yn codi’n gynnar iawn ac yn mynd i’r ystafell gysegr lle byddant yn llafarganu am beth amser ger bron delwedd o’r Bwda. Yna byddant yn eistedd yn dawel i fyfyrio.

Gwawr – Rywbryd ar ôl iddi wawrio (mae’r rheolau yn y Vinaya yn dweud y gall y mynachod fwyta rhwng gwawr a hanner dydd yn unig), bydd y mynachod yn cael brecwast syml o grual reis plaen a the.

### CYNNWYS


**Tudalen 1**

- ‘Croeso’
- ‘Y Dull o Fyw’
- Theravada Sangha
- Bywyd Bob Dydd

**Tudalen 2**

- Mahayana Sangha
- Rôl y sangha yn y gymuned

*DULL O FYW Y SANGHA HEDDIW...*

Ar ôl brecwast bydd y gwaith tŷ yn cael ei wneud, ond bydd rhai mynachod yn gadael i fynd i gardota gyda'u powlenni, rhywbeth a wnânt bob dydd. Yn y fynachlog hon mae bwyd yn cael ei roi gan leygwyr ac yn cael ei baratoi yng nghegin y fynachlog gan frodyr lleyg (anagarika) a lleygwyr, felly mae'r traddodiad dwyreiniol o gardota yn ddiangen. Fodd bynnag, bydd mynachod yn mynd i gardota er mwyn parchu'r traddodiad ac i gadw mewn cysylltiad â'r bobl leol.

12.00am – Mae prif bryd bwyd y dydd yn cael ei fwyta cyn hanner dydd a cheir cyfnod o orffwys cyn dechrau ar sesiwn waith y prynhawn.



Hwyr y prynhawn – Mae te yn cael ei yfed a hefyd rhai 'meddyginiaethau' derbyniol fel caws neu siocled du.

7.30pm – Bydd y mynachod yn dychwelyd i'r ystafell gysegr am fwy o lafarganu a myfyrio tawel.

## MAHAYANA SANGHA

**M**ae'r drefn hon yn dod o draddodiad Tibet ac yn disgrifio diwrnod mewn mynachlog yn Tibet.

**M**ae'r pelydrau cyntaf o oleuni i'w gweld dros y mynyddoedd, ac mae'n dechrau gwawrio. Mae'r puja (gweddi foreol) yn dechrau. Mae'r lamas, gelongs (mynachod) a getsuls (darpar fynachod) yn dod ynghyd yn eu gwisgoedd lliw rhwd yn yr lhakang (math o ystafell weddïo), ac wrth ochr yr ystafell hon mae ystafell ffigur sydd dan drem cerflun mawr o'r Bwda. id oes unrhyw allor fel y byddem ni yn ei deall. Mae thangkhas (sgroliau darluniadol gyda chynnwys crefyddol) yn hongian ar y muriau i helpu gyda'r myfyrio.

**M**ae'r mynachod yn eistedd yn yr 'ystum lingroes' gyda'u coesau wedi'u croesi oddi danynt ar y meinciau isel sydd fel sedd hir i'r chwith o echel ganolog yr lhakang. Mae'r ystafell i gyd yn dywyll heblaw'r ychydig o oleuni sy'n treiddio trwy'r agoriad yng nghanol y to. Mae nifer o lampau menyn prin eu golau yn yr ystafell. Mae'r lampau menyn hyn, ynghyd â'r ffyn arogldarth niferus, yn creu arogl hudolus.



**M**ae'r mynachod yn siarad gyda'i gilydd, yna yn sydyn mae popeth yn llonyddu. Mae rhythm y drymiau distaw a'r testunau wedi'u sganio o'r Kangyur yn raddol fynnu sylw'r sawl sy'n gwylio, er nad yw efallai'n deall yr iaith. Mae'r argraff drawiadol hon yn cael ei ddwysáu ymhellach gan y ffaith bod y pwyslais rhythmig a thraw pob sillaf unigol yn ufuddhau i reolau sy'n cael eu parchu'n llwyr.

**A**r ôl peth amser, mae'r murmur hwn yn cynyddu ac mae'r symbalau a'r clychau bron yn boenus o uchel. Yna'n sydyn mae'r gweddïo yn gorffen ac mae tawelwch yn disgyn. Wedyn, mae te menyn yn cael ei arllwys o duniau copr ysblennydd i bowlenni bach pren y mynachod. Arllwysir yn ôl rheng: mae mynach a gafodd ei ordeinio cyn chi yn uwch na chi. Mae cynhwysydd lledr bach o flaen pob mynach gyda phryd bwyd o farlys rhost ynddo. Mae'r pryd bwyd barlys yn cael ei gymysgu gyda'r te menyn. Mae'r cymysgedd, a elwir yn tsampa, yn ymdebygu i bryd bwyd defodol o fewn ffrâm amser aberth y bore.

**M**ae'r gweddïo rhythmig yn ailgychwyn yn ddiweddarach. Y tro hwn mae'r rhythm yn cyflymu. Mae'r sŵn yn cynyddu ac yn ogystal â'r drymio, clywir chwythgyrn a ffliwtiau gwichlyd yn cyfeilio i weddïau'r mynachod. Mae'r cyfan yn chwyddo'n symffoni, ond nid yw'n sŵn deniadol iawn i'r rhan fwyaf o glustiau, ac mae'r ghantas yn ymuno.

**P**an fydd hyn yn digwydd, gwyddwn eu bod yn galw ar warcheidwaid dysgeidiaethau'r Bwda. Mae'r tiwbiau hir, fel cyrn Alpaidd, ynghyd â'u tôn dwfn yn creu sŵn pŵl.



**Y**na mae'r cyfan yn gorffen yn sydyn ac mae'r tawelwch sy'n disgyn bron mor boenus â'r sŵn ei hun. Ond mae'r mynachod yn gadael yr lhakang gan guro dwylo i gychwyn ar eu gwaith bob dydd.

## Rôl y Sangha yn y gymuned

**M**ae llawer o amser y mynachod yn cael ei neilltuo i'r lleygwyr. Fel sy'n digwydd mewn rhai gwledydd hyd heddiw, mae'r mynachod yn dibynnu ar leygwyr am fwyd ac mae pob gwlad yn dibynnu ar leygwyr i ddarparu mynachod y dyfodol (mae mynachod yn ddi-briod wedi'r cwbl). Yn gyfnewid am hyn mae'r mynachod yn cymryd rhan mewn angladdau a digwyddiadau eraill sy'n gofyn am seremoniau crefyddol. Hefyd mae'r mynachod yn darparu addysg grefyddol a seciwlar i'r mynachod newydd, felly os ydynt yn dewis aros fel mynach neu adael y fynachlog, mae'r mynach newydd ar ei ffordd i fywyd gwell.

Tudalen 2

## Dull cyflwyno – Dyfarniad ASDAN (Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynllun Dyfarnu)

Mae dyfarniad ASDAN yn Rhaglen Ddyfarnu Prifysgolion sy’n achredu gweithgareddau cyfoethogi ac yn gosod heriau i bobl ifanc fel rhan o’u cyfnod addysg Ôl-16. Disgwylir i ddysgwyr sy’n dilyn y dyfarniad ddatblygu ac arddangos ystod o sgiliau drwy gwblhau rhai tasgau penodol. Mae’r dysgwyr yn dewis eu tasgau eu hunain ac yna’n darparu portffolio o dystiolaeth o lwyddiant y gweithgareddau y maen nhw wedi ymgymryd â nhw. Un agwedd ar y dyfarniad yw ‘cynyddu ymwybyddiaeth o hynodrwydd y gwledydd, diwylliannau, crefyddau neu werthoedd eraill a’u harwyddocâd yn y byd...’ sy’n adlewyrchu rhai o ofynion y rhaglen astudio Ôl-16 yn y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roedd yr ysgol hon wedi cynghori’r dysgwyr i gysylltu addysg grefyddol â’r uned Dinasyddiaeth Weithredol yn y fanyleb, a fyddai’n cael ei gyfrif fel un o’r pedwar modiwl wedi’i gredydu.

Er nad yw ASDAN ei hun yn canolbwyntio ar addysg grefyddol yn unig, mae’n amlwg y gall y pwnc chwarae rhan wrth gyfoethogi gwaith y dysgwyr hynny sy’n astudio ar gyfer y dyfarniad hwn. Gall addysg grefyddol wedi’i hamserlennu ychwanegu amrywiaeth o safbwyntiau a dimensiwn arall at y dyfarniad a allai fod yn anodd ei darparu mewn man arall yn y cwricwlwm. Yn arbennig gall gyfoethogi Modiwl 1 (Dinasyddiaeth Weithredol) a Modiwl 4 (Cysylltiadau Rhyngwladol) trwy ddarparu’r wybodaeth, y ddealltwriaeth a’r sgiliau trosglwyddadwy sy’n helpu’r dysgwyr i wella cydlyniad cymdeithasol a chydraddoldeb ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Roedd yr ysgol hon wedi defnyddio rhan o’i gwersi addysg grefyddol statudol i helpu dysgwyr i weithio ar agweddau perthnasol ar ddyfarniad ASDAN. Cynigiwyd agweddau eraill ar y dyfarniad mewn gwersi eraill yn y cwricwlwm.

**Cwestiynau sylfaenol:**

- Sut gall cymunedau gydweithio i helpu pobl mewn angen?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**

- Safbwyntiau Cristnogol ar y Rheol Aur, gwerth bywyd dynol ac effaith crefydd ar unigolion a chymdeithas.

**Ymateb personol:**

- Gwerthuso effaith helpu eraill ar unigolion ac ar y gymuned.

Er mwyn cefnogi mynediad i ddyfarniad ASDAN cafodd dysgwyr sy'n derbyn addysg grefyddol statudol eu cyflwyno i gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol amrywiol sy'n ymwneud â'r Rheol Aur, gwerth bywyd dynol a sut y bydd delfrydau crefyddol yn effeithio'n aml ar y ffordd y mae credinwyr yn byw eu bywydau ac yn meithrin perthynas o fewn eu cymuned leol. Aeth y gwersi a'r gweithgareddau mewn addysg grefyddol ymlaen i adnabod ac archwilio sut y gallai'r dysgwyr roi eu syniadau personol, crefyddol ac anghrefyddol, ar waith trwy wneud gwaith elusennol i godi arian ar gyfer pobl oedrannus yn y gymuned.

Yn ogystal â gwersi addysg grefyddol ffurfiol cafodd y dysgwyr gyfle i gyfnerthu'r hyn yr oedden nhw wedi'i ddysgu a'i roi ar waith trwy weithgareddau ysgol/cymunedol arloesol ac ymarferol. Roedd y dysgwyr oedd yn dymuno astudio'r dyfarniad hwn wedi gweithio ar ddatblygu'r Sgiliau Allweddol ehangach, fel 'Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich hun', 'Gweithio gydag Eraill' a 'Datrys Problemau', a chyflwyno'r dystiolaeth hon mewn portffolio strwythuredig.

**Enghraifft o daflenni cofnodi dysgwr a gweithgareddau codi arian**



Amcanion Her 3

- Cynllunio a threfnu digwyddiadau i godi arian at elusen gyda myfyrwyr eraill sydd yn y chweched dosbarth
- Codi digon o arian i gynnal y parti Nadolig blynyddol i'r pensiynwyr
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau eraill i godi arian i helpu cymunedau lleol

[ACTION PLAN]

**CYNLLUN GWEITHREDU**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Her:** Codi arian at elusen (Parti Pensiynwyr) | **Statws Credyd:** ½ |

**Cefndir:** (Dylech egluro pam yr ydych wedi dewis yr her hon, beth yw eich cryfderau a'ch gwendidau penodol mewn perthynas â'r her hon, pa brofiadau yr ydych yn gobeithio y bydd yr her hon yn eu cynnig, pa sgiliau neu wybodaeth yr ydych yn gobeithio eu hennill , sut y gwnaethoch drafod yr her gyda'ch tiwtor ac yn y blaen):

Fe hoffwn roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned y tyfais i fyny ynddi. Mae gennyf ddychymyg pur dda ac felly byddaf yn medru meddwl am syniadau gwreiddiol ('wacky') ar gyfer codi arian angenrheidiol ar gyfer parti Nadolig. Yn gyffredinol rwyf yn eitha' swil ond fy ngobaith yw y byddaf yn medru goresgyn hynny. Gobeithio caf amser pleserus yn codi arian. Rwyf yn gobeithio dysgu mwy am y cysyniad o godi arian at elusen. Teimlaf y bydd yn fy ngwneud yn berson mwy hyderus ac y bydd yn ehangu fy mhersonoliaeth. Bûm yn trafod hyn gyda fy nhiwtor a phenderfynais ar statws credyd o hanner i gyd-fynd â'r cynllun byd i darllen.

**Camau gweithredu** (Disgrifiwch y gwahanol gamau'r ydych yn rhagweld y bydd eu hangen i gwblhau'r her, y targedau tymor byr a fydd ynghlwm wrth bob cam, a nodwch yr amserlen ar gyfer pob un.

2006 Tymor yr Hydref – Trefnu twrnamaint concyrs ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 i godi arian

Y Gaeaf – gweithio tuag at y parti Nadolig i'r pensiynwyr yn Rhagfyr. Gwisgo wig las trwy gydol y parti a chasglu arian drwy gasglu noddwyr. Hefyd creu plethdorchau Nadolig i'w gwerthu i'r athrawon. Cynorthwyo gyda'r gwaith o drefnu'r parti. (Rhagfyr – rafflo ym Mhorthcawl i godi arian at elusen)

2007 Mawrth – Creu cennin i'w gwerthu ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi i godi arian at barti'r flwyddyn nesaf.

## Dull cyflwyno – Encilion a chynadleddau

Mae amrywiaeth o ganolfannau encil ar draws Cymru sy'n canolbwyntio ar ddimensiynau mwy creadigol, meddylgar ac ysbrydol bywyd. Mae'r profiad o aros mewn canolfan encil yn gallu rhyddhau'r dysgwyr o'r pwysau a wyneban nhw yn eu bywydau bob dydd, darparu cyfleoedd iddyn nhw ryngweithio â'i gilydd heb harneisiau technolegol ein cymdeithas yn yr unfed ganrif ar hugain, ac archwilio gwerth annatod a phwrpas bywyd. Mae addysg grefyddol yn ceisio darparu cyfleoedd a phrofiadau i'r dysgwyr archwilio a datblygu'r sgiliau mwy myfyriol, anniriaethol o fewn yr ystafell ddosbarth, ond gall ychydig o ddiwrnodau o'r ysgol ddarparu dull mwy canolbwyntiedig o ymwneud â byd natur a phobl eraill mewn amgylchedd diogel a strwythuredig.

Roedd yr ysgol hon wedi defnyddio rhaglen gyfoethogi i ategu gwersi addysg grefyddol statudol.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Beth yw profiad crefyddol ac ysbrydolrwydd a beth yw eu nodweddion niferus?
- Sut mae profiad crefyddol ac ysbrydolrwydd yn effeithio ar unigolion a'r gymuned?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Safbwyntiau Cristnogol ar brofiad crefyddol ac ysbrydolrwydd, perthynas â Duw ac ymatebion iddo, ystyr a phwrpas bywyd ac effaith crefydd/ymrwymiad crefyddol ar unigolion, cymunedau a chymdeithas.

**Ymateb personol:**
- Myfyrio ar werth dimensiynau crefyddol, ysbrydol a moesol bywyd.

Mae ysgol Gatholig yn trefnu encilion pedwar diwrnod rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar gyfer ei dysgwyr. Ym Mlwyddyn 14–16 mae'r profiadau a'r gweithdai ymarferol hyn nid yn unig yn galluogi dysgwyr i archwilio dimensiynau crefyddol, moesol ac ysbrydol, ond mae hefyd yn helpu'r dysgwyr i wella eu hunanbarch personol a'u hymdeimlad o'r ysgol fel cymuned gymdeithasol. Mae'r agweddau

personol a chymdeithasol yn arbennig yn cael eu cyfoethogi mewn sawl ffordd arbennig, er enghraifft, gyda'r dysgwyr yn trafod materion crefyddol a dynol mewn modd agored a sensitif mewn grwpiau bach; gweithio gydag eraill i archwilio dulliau creadigol o fynegi syniadau, h.y. trwy gelf, dawns neu ddrama; cael amser tawel a lle i rannu a meddwl amdanyn nhw eu hunain ac eraill; a phrofiadau dysgu mewn parau lle mae rhyngweithio cymdeithasol yn cael ei feithrin. Bu'r profiadau hyn yn ffordd gadarnhaol iawn o gynorthwyo datblygiad personol a chymdeithasol y dysgwyr a rhoi cyfle iddyn nhw archwilio eu hochr ysbrydol yr un pryd.

Yn ogystal â'r gweithgaredd llwyddiannus hwn mae'r ysgol yn darparu sawl cynhadledd chweched dosbarth y flwyddyn. Mae un o'r cynadleddau'n cynnwys astudio a thrafod dysgeidiaeth Gatholig ar gyfiawnder cymdeithasol a lledaenu'r ethos Cristnogol gan yr ysgol. O ganlyniad i'r cyrsiau undydd hyn, mae'r dysgwyr wedi cymryd rhan mewn nifer o fentrau cymunedol lleol. Er enghraifft, maen nhw'n cefnogi Pwrs y Samariad, (Ymgyrch Plant y Nadolig Apêl Bocs Esgidiau) ac Apêl Mr X (elusen leol) sy'n cynnig modd i'r ysgol weithredu fel man casglu ar gyfer y gymuned leol. O ganlyniad i gysylltiadau â Chymdeithas Sant Vincent De Paul, mae'r dysgwyr yn casglu wyau Pasg sy'n cael eu dosbarthu i loches menywod leol mewn lleoliad cyfrinachol. Fel dull o archwilio gweithredu cymdeithasol ac ymrwymiad crefyddol, mae'r dysgwyr hefyd wedi cynnal nosweithiau o adloniant i bobl oedrannus leol pan fydd y dysgwyr yn perfformio, trefnu bingo a rafflau a hefyd yn darparu pryd bwyd mawr ar gyfer eu gwesteion.

**Dysgwyr mewn un or encilion**



## Dull cyflwyno – Gwaith elusennol ac ymweliadau

Gall gwaith elusennol ac ymweliadau fod yn ffordd gadarnhaol i'r dysgwyr ddangos pryder a chyfrifoldeb trwy weithredu cadarnhaol yn y gymuned leol ac yn fyd-eang. Gallan nhw archwilio'r egwyddorion sylfaenol sy'n sail i elusennau amrywiol a gwerthuso pam eu bod nhw'n bodoli a phwy y maen nhw'n cynnig budd iddyn nhw.

Gall gwaith elusennol ac ymweliadau fod yn sbardun i'r dysgwyr wybod mwy am wahanol gredoau, gwerthoedd ac ymrwymiadau crefyddau a diwylliannau yng Nghymru, Ewrop a'r byd, gan felly darparu ffynhonnell gyfoethog a pherthnasol ar gyfer eu haddysg grefyddol. Trwy addysg grefyddol gallan nhw archwilio tarddiad crefyddol gwaith elusennol, sut y gall ffydd ac ymroddiad ysbrydoli aberth ac anhunanoldeb a gallan nhw ystyried pam bod pobl grefyddol ac anghrefyddol yn cefnogi gwaith elusennau neu'n cael hyd i ffyrdd personol i helpu eraill ac anelu at fyd mwy cyfiawn.

Yn yr ysgol hon mae gwersi addysg grefyddol statudol yn darparu cymorth ar gyfer profiadau cyfoethogi ychwanegol i ddysgwyr.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- I ba raddau all unigolion leddfu dioddefaint eraill?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Safbwynt Cristnogol a dau safbwynt crefyddol arall sy'n darparu mewnwelediad i werth gofalu am eraill a phwysigrwydd gwaith elusennol gweithredol. Gwybodaeth benodol ar grefydd yn Uganda a sut y mae'n cymharu â chrefydd ym Mhrydain.

**Ymateb personol:**
- Gwerthuso gwerth gweithredu yn erbyn tlodi – o safbwynt crefyddol ac anghrefyddol.

Mae'r ysgol hon wedi datblygu posibilrwydd unigryw ar gyfer integreiddio addysg grefyddol a'r Llwybrau Dysgu 14–19 trwy gyfranogiad cymunedol a gweithredu cymdeithasol. Ers sawl blwyddyn bu'r dysgwyr yn codi arian ar gyfer eu hysgol gyswllt a chartref plant amddifad yn Uganda mewn cydweithrediad â sefydliad chymorth Cristnogol. Trwy godi arian yn weithredol mae'r ysgol gyfan wedi chwarae rhan wrth ddarparu gwerslyfrau, llaeth am ddim, peiriant gwnïo a gwella offer/cyfleusterau addysgol. Mae rhai dysgwyr chweched dosbarth yn cael cyfle i ymweld â'r ysgolion yn Uganda.

## Y cartref plant amddifad yn Uganda



Dros y blynyddoedd, mae'r adran addysg grefyddol wedi rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth hanfodol o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefydd, yr effaith ar y gymuned a'r byd ehangach. Mae'r adran wedi datblygu dealltwriaeth o faterion trydydd byd hefyd ac ymrwymiad crefyddol yn wyneb dioddefaint, ac wedi hybu ymwybyddiaeth o werth gweithredu cymdeithasol, bod yn gyfrifol am unigolion a chymunedau a sut y gall sefydliadau crefyddol ac anghrefyddol gael effaith ar gymdeithas yn y wlad hon a thramor.

Mae'r ysgol yn ystyried sut i gryfhau a chyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y prosiect a'r gofyniad i ddarparu addysg grefyddol Ôl-16. Gellid gwneud hyn trwy ddefnyddio gwersi addysg grefyddol Ôl-16 wedi'u hamserlennu i gyfweld â siaradwyr, cynnal dadleuon ffurfiol, cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu gweithredol a datblygu astudiaethau achos/adnoddau dilys a gwybodus ar gyfer myfyrwyr y dyfodol, ac ati. Y nod fyddai i'r dysgwyr ystyried a darparu ymatebion gwybodus i'r cwestiynau crefyddol a dynol sylfaenol sy'n codi trwy globaleiddio, hawliau dynol, gwaith elusennol, masnach deg, ac ati a datblygu sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol neu gyfleoedd dysgu gydol oes. Gyda chanllawiau clir, gallai'r crynodebau unigol o'r agwedd Gymreig neu Ugandaidd ar y prosiect gael eu hysgrifennu a'u defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer cymhwyster Sgiliau Allweddol neu astudio unigol ar y cwrs Bagloriaeth Cymru.



**Profiadau un o'r dysgwyr a deithiodd i Uganda**

Trefnwyd y daith mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol Uganda, felly yn ogystal â threulio amser yn yr ysgol gyswllt, arhoson ni yn ysgol gynradd Maria's Care a chartref i blant amddifad. Yma roedden ni wedi trefnu rhoddion, paentio waliau a chwarae gyda'r plant... Hefyd fe gawson ni sawl cyfle i fentro allan o'r adeilad, ymweld â chlinigau, wardiau mamolaeth ac ysgolion lleol a theithio ar hyd ffyrdd brwnt coch ofnadwy am oriau di-ri i ymweld â phentrefi anghysbell... profiad bythgofiadwy...

## Dull cyflwyno – Defnyddio eclips y BBC *Addysg Grefyddol: Addysg Ryfeddol*

Mae'r BBC wedi casglu amrywiaeth o ddeunyddiau ysgogol o'i archif a'u cynnig i ysgolion ar ei gwefan[7] a DVD eclips. Mae'r deunyddiau (a gomisiynwyd gan APADGOS) yn darparu ysgogiad arloesol a pherthnasol i ddysgwyr 14 i 19 oed a gellir eu defnyddio mewn gwersi addysg grefyddol ffurfiol, cynadleddau neu unrhyw leoliad arall ar gyfer addysg grefyddol statudol. Mae cynlluniau gwersi a thaflenni gweithgaredd yn gysylltiedig â'r e-glipiau i ddangos sut y gellid gweithredu'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg.

Mae'r ysgol hon wedi defnyddio eclips fel sail ar gyfer cynllunio a gweithredu addysg grefyddol statudol.

**Cwestiynau sylfaenol:**
- Pa heriau fydd pobl yn eu hwynebu mewn cymdeithas heddiw?
- Sut mae safbwyntiau crefyddol yn perthnasu â'r heriau hyn?

**Credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion):**
- Mae Cristnogaeth, Bwdhaeth, Hindŵaeth ac Iddewiaeth yn darparu ystod o fewnwelediadau i'r heriau a wynebir gan gymdeithas heddiw.

**Ymateb personol:**
- Gwerthuso dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol ar wneud penderfyniadau.

Fel rhan o wersi ffurfiol wedi'u hamserlennu ar gyfer addysg grefyddol 14–19, mae'r ysgol hon wedi defnyddio un o unedau eclips y BBC ar gyfer addysg grefyddol. Mewn chwe gwers un awr mae'r dosbarthiadau yn ystyried beth yw'r gwerthoedd mwyaf perthnasol mewn cymdeithas heddiw a sut mae mwy o gyfathrebu electronig yn effeithio ar y gwerthoedd hyn. Mae'r dosbarth yn archwilio ystyr ac arwyddocâd gwerthoedd fel gonestrwydd, ffyddlondeb, ymddiriedaeth, unplygrwydd a pharch, ac yn gwerthuso p'un ddylai gael ei barchu fwyaf. Mae'r dysgwyr yn gwylio dau o'r eclips o Bobol y Cwm, lle mae gonestrwydd, parch ac unplygrwydd yn cael eu hamau.

7. www.bbc.co.uk/cymru/eclips/

Mae'r dysgwyr yn archwilio ac yn ymchwilio i'r gwerthoedd sylfaenol sy'n dod i'r amlwg trwy'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion ym mhob un o'r pedair crefydd. Maen nhw'n ystyried y gwerthoedd yn, er enghraifft, y Deg Gorchymyn, dysgeidiaeth yr Iesu ar y Rheol Aur, Karma, Dharma, ac ati ac yn dadlau ac yn gwerthuso perthnasedd ac arwyddocâd y gwerthoedd hyn mewn cymdeithas heddiw. Hefyd maen nhw'n ystyried sut a pham y bydd ymlynwyr crefyddol yn ymrwymo i'r gwerthoedd hyn sydd weithiau yn anodd eu cynnal.

Mae'r dysgwyr yn ystyried y budd a'r pryderon sy'n codi mewn erthyglau ac adroddiadau newyddion am gyfathrebu technolegol modern, er enghraifft rhwydweithio cymdeithasol a gwefannau eraill, defnyddio ffôn symudol, ac ati. Gellid defnyddio pob un o'r rhain ar gyfer cyfathrebu cadarnhaol, ond gellid eu defnyddio at ddibenion mwy amheus hefyd.

Drwy ddefnyddio credoau a gwerthoedd crefyddol ac anghrefyddol fel ffynonellau mewnwelediad, mae'r dysgwyr yn amlinellu'r gwerthoedd/perthnasoedd yr hoffen nhw eu hybu ac yna'n cynllunio gwefan sy'n werth chweil ac yn ddeniadol.

Mae pob grŵp yn defnyddio cyflwyniad Powerpoint i esbonio sut oedd eu dealltwriaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau wrth greu'r wefan newydd; manteision y wefan newydd o ran hybu gwerthoedd, cryfhau perthnasoedd cadarnhaol ac adnabod sut y bydden nhw'n annog y defnydd o'r wefan. Fel rhan o'r cyflwyniad byddai cyfleoedd i weddill y dosbarth gynnig sylwadau a gwneud awgrymiadau.

**Enghraifft o eclips y BBC *Addysg Grefyddol: Addysg Ryfeddol* (Pobol y Cwm)**



## Siart astudiaethau achos enghreifftiol

**Mae'r astudiaethau achos enghreifftiol yn arddangos y gofynion canlynol:**

| | Astudiaeth Grefyddol TGAU | | Gwersi wedi'u hamserlennu | | Wythnos draws-gwricwlaidd | Rhaglen gyfoethogi draws-gwricwlaidd | | Cwricwlwm ehangach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ystod addysg grefyddol Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16** | **1** | **2** | **1** | **2** | | **1** | **2** | |
| **Y byd** | | | | | | | | |
| • lle, pwrpas a gwerth bywyd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ |
| • y byd naturiol a phethau byw | X | X | ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Profiadau dynol** | | | | | | | | |
| • hunaniaeth ddynol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | X | ✓ |
| • ystyr a phwrpas bywyd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| • perthyn | X | ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| • awdurdod a dylanwad | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ |
| • perthnasoedd a chyfrifoldeb | ✓ | ✓ | X | X | ✓ | ✓ | X | ✓ |
| • taith bywyd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | X |
| **Chwilio am ystyr** | | | | | | | | |
| • anfaterol/ysbrydol | X | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ |
| • gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Sylwer: yn ystod y cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod yn cael ei hastudio

| | Astudiaeth Grefyddol TGAU 1 | Astudiaeth Grefyddol TGAU 2 | Gwersi wedi'u hamserlennu 1 | Gwersi wedi'u hamserlennu 2 | Wythnos draws-gwricwlaidd | Rhaglen gyfoethogi draws-gwricwlaidd 1 | Rhaglen gyfoethogi draws-gwricwlaidd 2 | Cwricwlwm ehangach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau Allweddol** | | | | | | | | |
| • Cyfathrebu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| • TGCh | X | ✓ | X | X | ✓ | X | X | ✓ |
| • Cymhwyso Rhif | X | X | X | X | ✓ | ✓ | X | ✓ |
| • Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich hun | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ |
| • Gweithio gydag Eraill | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| • Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Llwybrau Dysgu** | | | | | | | | |
| • Sgiliau yn y Gymraeg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| • Sgiliau eraill cysylltiedig â gwaith | X | X | ✓ | X | X | ✓ | ✓ | ✓ |
| • Cwricwlwm Cymreig/Cymru, Ewrop a'r byd | X | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| • Materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| • Addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd | X | X | ✓ | X | X | ✓ | ✓ | X |
| • Agweddau a gwerthoedd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| • Profiad sy'n canolbwyntio ar waith | X | X | ✓ | X | X | ✓ | ✓ | ✓ |
| • Cyfranogiad cymunedol | X | X | X | X | ✓ | X | X | ✓ |
| • Profiadau diwylliannol/chwaraeon/esthetig/creadigol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | X | ✓ |

| Gwersi tiwtorial y Craidd Dysgu | Cynadleddau flynyddol – 1 | Cynadleddau flynyddol – 2 | Cynhadleddau i gefnogi arholiadau | Bagloriaeth Cymru – 1 | Bagloriaeth Cymru – 2 | Sgiliau Allweddol | Dyfarniad ASDAN | Encilion a chynadleddau | Gwaith elusennol ac ymweliadau | eclips y BBC *Addysg Grefyddol: Addysg Ryfeddol* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | X | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| ✓ | ✓ | X | X | X | X | X | ✓ | ✓ | ✓ | X |
| ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | X | ✓ | ✓ | ✓ |
| ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X |
| ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | X | ✓ |
| ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | X | X | ✓ | ✓ | ✓ | X |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | X | ✓ | ✓ | ✓ | X |
| ✓ | X | X | ✓ | X | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | X |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X |
| | | | | | | | | | | |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| ✓ | ✓ | X | X | X | ✓ | ✓ | X | X | X | ✓ |
| X | ✓ | ✓ | X | X | ✓ | X | X | X | X | X |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | X | ✓ |
| | | | | | | | | | | |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | | | | | | | | | |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| X | X | X | X | X | X | X | X | X | ✓ | X |
| ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X |
| | | | | | | | | | | |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | X | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | | | | | | | | | |
| X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X |
| ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X |
| ✓ | ✓ | X | X | X | X | X | ✓ | ✓ | ✓ | X |
| ✓ | X | X | X | X | X | ✓ | X | ✓ | X | ✓ |

# Atodiad 1 – Addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16

Tynnir y darnau o *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, (tudalen 27).

## Llwybrau Dysgu 14–19

Ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, bydd addysg grefyddol yn rhan o lwybr dysgu statudol pob unigolyn. Dylid cynllunio'r cwrs astudio a ddilynir fel ei fod yn hybu galluoedd pobl ifanc i fod yn ddysgwyr yn ogystal â hybu eu dyhead i gyrchu cyfleoedd dysgu yn y dyfodol. Yn benodol, dylai'r cwrs gyfrannu mor eang â phosibl at y pedair agwedd ar ddysgu a nodir yn y Craidd Dysgu 14–19.

Mae'r fframwaith addysg grefyddol yn darparu Rhaglenni Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16. Mae'r sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16 yr un fath, ond mae'r ystod yn wahanol.

## Cyfnod Allweddol 4

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r fframwaith yn darparu rhaglen astudio enghreifftiol sy'n ymwneud â gofynion cymwysterau TGAU presennol, ond mae hefyd yn darparu awgrymiadau ar gyfer cyrsiau cyfoethogi arloesol wedi'u lleoli yn yr ysgol sy'n ymwneud â'r Craidd Dysgu 14–19 a/neu gymwysterau priodol eraill (e.e. Sgiliau Allweddol/Bagloriaeth Cymru). Byddai asesu ar gyfer astudiaethau o'r fath naill ai'n cael ei gynnal yn ffurfiol trwy'r gweithdrefnau a fabwysiadir gan gorff dyfarnu neu drwy bennu deilliannau ysgol benodol yn seiliedig ar y disgrifiadau lefel enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol.

## Ôl-16

Gellir gweithredu'r rhaglen astudio enghreifftiol amrywiol i ddisgyblion Ôl-16 mewn amryw o ffyrdd arloesol fel rhan o raglen cyfoethogi ysgol. Maent yn ymwneud â'r Craidd Dysgu 14–19 a/neu gymwysterau priodol eraill (e.e. Sgiliau Allweddol/Bagloriaeth Cymru), gan gynnig modd i ysgolion gyflawni eu rhwymedigaethau statudol i ddisgyblion hyd at 19 oed. Byddai asesu ar gyfer astudiaethau o'r fath naill ai'n cael ei gynnal yn ffurfiol trwy'r gweithdrefnau a fabwysiadir gan gorff dyfarnu neu drwy bennu deilliannau ysgol benodol yn seiliedig ar y disgrifiadau lefel enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol.

# Atodiad 2 Cyfnod Allweddol 4 ac Ol-16: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol

Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid cyflawni hyn trwy **ryngberthynas tri sgìl craidd** y pwnc.

- **Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol** – cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar chwilio am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd yw cwestiynau sylfaenol. Mae ganddynt ddyfnder a dwyster sy'n sail i unrhyw agwedd ar astudiaeth mewn addysg grefyddol.
- **Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol** – mae hyn yn cynnwys archwilio storïau crefyddol, testunau cysegredig, ffordd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n darparu mewnwelediad i'r cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach.
- **Mynegi ymatebion personol** – mae hyn yn cynnwys cysylltu'r materion sy'n codi yn ystod astudiaethau â phrofiadau'r disgyblion eu hunain a chaniatáu datblygu ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) a chwestiynau sylfaenol, a'u gwerthuso.

Mae'r sgiliau craidd hyn yn cyd-blethu a dylid cymhwyso'r tri ohonynt yn briodol i'r ystod a astudir.

## Sgiliau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16

### Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

- ofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol sy'n codi trwy eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- ymchwilio i gwestiynau sylfaenol o amryw o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol gwybodus er mwyn gwerthuso ystod o bosibiliadau a dechrau tynnu casgliadau rhesymegol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd
- gweithio ar eu pennau eu hunain a gydag eraill i greu rhagdybiaeth, defnyddio technegau datrys problemau, meddwl beirniadol, creadigol, greddfol a metawybyddiaeth ddatblygedig i werthuso ystod o dybiaethau, posibiliadau ac esboniadau
- gwerthuso a chyfiawnhau dadleuon a safbwyntiau gan gydnabod bod casgliadau yn rhannol yn unig, yn amhendant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

## Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

- alw i gof, disgrifio ac esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir
- gwneud ac ymchwilio cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol er mwyn dangos dealltwriaeth gydlynol o syniadau/cysyniadau crefyddol
- cymhwyso ystod eang o gysyniadau crefyddol er mwyn cyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion ac esbonio yn fanwl gywir ystod o safbwyntiau sydd gan bobl grefyddol
- ystyried tystiolaeth ynghylch sut mae crefydd yn cael effaith ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas, gan werthuso ystod o ddehongliadau
- dadansoddi, dehongli a gwerthuso haenau o ystyr/symbolaeth o fewn storïau, defodau, celf, dawns a cherddoriaeth grefyddol.

## Mynegi ymatebion personol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

- gyfleu syniadau a chysyniadau crefyddol gan ddefnyddio dadleuon rhesymegol, barn a syniadau personol mewn amryw o ffyrdd creadigol, *e.e. ar lafar, yn ysgrifenedig, a thrwy'r celfyddydau creadigol*
- gwerthuso sut y gallai dysgu am yr amrywiaeth o brofiadau crefyddol/ysbrydol a phenderfyniadau moesol effeithio ar eu bywyd eu hunain a bywydau pobl eraill
- gwerthfawrogi, parchu, empatheiddio â safbwyntiau eraill a'u gwerthuso er mwyn iddynt allu tynnu eu casgliadau rhesymegol eu hunain a datblygu agweddau cadarnhaol
- myfyrio ar ddehongliadau o ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio ystod eang o eirfa grefyddol a dangos dealltwriaeth ddatblygedig o iaith symbolaidd
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i gael gwybodaeth a throsglwyddo cysyniadau crefyddol.

# Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16: Rhaglen Astudio Enghreifftiol Cenedlaethol

## Ystod ar gyfer addysg grefyddol statudol wedi'i hachredu/heb ei hachredu yng Nghyfnod Allweddol 4

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau drwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau astudio canlynol. Ni ddylid ystyried y rhain fel pynciau ar wahân, ond yn hytrach fel meysydd astudio sydd wedi'u rhyng-gysylltu ac sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ystyried, archwilio a mynegi syniadau ac ymatebion. O fewn cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod wedi cael ei hastudio.

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau trwy ymdrin â:**

**Y byd**

- **lle, pwrpas a gwerth bywyd** – dylanwad ac effaith ddwyochrog crefydd ar berthnasoedd, cymunedau a diwylliannau yng Nghymru, Ewrop a'r Byd, *e.e. sialensiau perthnasoedd (dynol/Dwyfol); dyfodol y gymuned; amrywiaeth o ran diwylliant a chrefydd*
- **y byd naturiol a phethau byw** – sut mae crefydd yn ysbrydoli pobl i weithredu o fewn y gymuned leol a'r gymuned fyd-eang, *e.e. asiantaethau cymorth lleol, cenedlaethol a byd eang; dylanwad crefydd ar ddinasyddiaeth; stiwardiaeth; cynaliadwyedd; lles anifeiliad; sancteiddrwydd bywyd*

### Profiad dynol

- **hunaniaeth ddynol** – sut y canfyddir ac y gwerthfawrogir natur a hunaniaeth dynol mewn crefydd a diwylliant yn yr unfed ganrif ar hugain, *e.e. agweddau a gwerthoedd dynol; hunanoldeb ac anhunanoldeb; tegwch, cyfiawnder a chydraddoldeb*
- **ystyr a phwrpas bywyd** – materion yn ymwneud â gwirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth mewn crefydd, megis da, drwg, ewyllys rhydd, tynged, dioddefaint, diniweidrwydd, gobaith, bywyd marwolaeth/bywyd tragwyddol a materion sy'n codi o ddehongliadau crefyddol ac anghrefyddol o ddigwyddiadau a ffenomena cyfoes, *e.e. gwneud penderfyniadau gwleidyddol; gwariant cyhoeddus; trychinebau naturiol; dyled unigolyn, cenedlaethol a byd-eang*

- **perthyn** – sut mae crefydd a diwylliant yn ysbrydoli ymrwymiad, addewid, ymroddiad, myfyrio a dyhead, *e.e. tebygrwydd rhwng chwaraeon a chrefydd; defnyddio a chamddefnyddio amser hamdden; mynegi ffydd trwy astudio, gweithredu, myfyrdod ac addoli*
- **awdurdod a dylanwad** – effaith crefydd ar y broses gwneud penderfyniadau a fabwysiadir gan unigolion a chymunedau yng Nghymru, Ewrop a'r Byd, *e.e. sialensiau i ryddid crefyddol; rhyddid barn/gwybodaeth/symud; cyfreithiau sanctaidd/seciwlar; iawnderau dynol/sifil; cydwybod, cyfiawnder, rhyddhad, rhyfel, heddwch; cymodi*
- **perthnasoedd a chyfrifoldeb** – effaith crefydd ar ddatblygiad personol, cymdeithasol a moesol yr hunan ac eraill, *e.e. rheolau ar gyfer byw; iawnderau a dyletswyddau; croesawu amrywiaeth; agweddau tuag at adnoddau a'r defnydd a wneir ohonynt; sialensiau i grefydd yn y gweithle/dewisiadau o ran gyrfa galwedigaeth; urddas dynol, cydraddoldeb, unplygrwydd, goddefgarwch; cyfrifoldeb*
- **taith bywyd** – sut y mae crefydd yn herio ac yn dylanwadu ar hunaniaeth bersonol a chyfunol, *e.e. ffasiwn, chwaraeon, amser hamdden; addoli a dathlu; magwraeth; cymuned leol*

## Chwilio am ystyr

- **anfaterol/ysbrydol** – ffyrdd traddodiadol a chyfoes o fynegi profiad crefyddol ac ysbrydolrwydd, *e.e. natur Duw; symbolau delweddau; profi Duw; rhesymau dros gredu yn Nuw; ffydd ac amheuaeth*
- **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – cryfder cred crefyddol/ysbrydol sy'n galluogi pobl i fentro bod yn wahanol a gweithredu er mwyn cyflwyno newid cadarnhaol, *e.e. perthynas â Duw ac ymateb i Dduw; effaith crefydd/ymrwymiad crefyddol ar unigolion, cymunedau a chymdeithas; hunaniaeth/amrywiaeth o fewn ac ar draws crefydd.*

## Ystod ar gyfer addysg grefyddol statudol wedi'i hachredu/heb ei hachredu Ôl–16

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau drwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau astudio canlynol. Ni ddylid ystyried y rhain fel pynciau ar wahân, ond yn hytrach fel meysydd astudio sydd wedi'u rhyng-gysylltu ac sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ystyried, archwilio a mynegi syniadau ac ymatebion. O fewn cyfnod allweddol cyfan byddai'n rhesymol disgwyl bod pob agwedd ar yr ystod wedi cael ei hastudio.

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu sgiliau trwy ymdrin â:**

### Y byd

- **lle, pwrpas a gwerth bywyd** – sut mae crefydd yn pwysleisio gwerth bodolaeth ddynol, e.e. *cymhellion, penderfyniadau a chanlyniadau; camfanteisio a chaethwasiaeth fodern; cyfiawnhau masnach deg/cydraddoldeb/cyfiawnder*
- **y byd naturiol a phethau byw** – cyfiawnhad a gwrthwynebiad crefyddol i ddefnyddio a chamddefnyddio'r byd naturiol a phethau byw, e.e. *moeseg feddygol; dehongliadau o'r ddeddf naturiol; llywodraethu'r byd*

### Profiad dynol

- **hunaniaeth ddynol** – cwestiynau am sicrwydd a gwirionedd crefyddol yn y gymdeithas gyfoes, e.e. *dehongliadau o Dduw; teledu realiti; gwirionedd a gonestrwydd yn y cyfryngau; hedoniaeth*
- **ystyr a phwrpas bywyd** – sut mae gwerthoedd a syniadau crefyddol a chyfoes yn dylanwadu ar hunan-barch a barn am eraill, e.e. *sut mae'r cyfryngau'n portreadu Duw, crefydd a moesoldeb; sut mae'r cyfryngau'n cyflwyno modelau ymddwyn; enwogion a phobl sy'n ysbrydoli*
- **perthyn** – goblygiadau Cymru a'r pentref byd-eang o ran crefydd, e.e. *cymdeithas amlddiwylliannol; amlblwyfaeth; cyfoeth ac amrywiaeth; hygyrchedd byd-eang; erydu gwerthoedd traddodiadol; twf cyfathrebu electronig a pherthnasoedd yn chwalu*

- **awdurdod a dylanwad** – sut y mae awdurdodau crefyddol a seciwlar yn ymateb i'r cyfryngau a'r diwydiannau adloniant cyfoes, *e.e. fideos a cherddoriaeth; cyfleu trais fel rhywbeth cyffrous; bychanu ymddygiad rhywiol*
- **perthnasoedd a chyfrifoldeb** – sut y mae crefydd, y llywodraeth a sefydliadau byd-eang yn cael effaith ar gytgord anghytgord byd-eang, *e.e. cyfrifoldebau'r Cenhedloedd Unedig; diwinyddiaeth rhyddhad; rhyfel/heddwch; democratiaeth/rheolau Duw*
- **taith bywyd** – dehongliadau crefyddol o'r cread a phwrpas y ddynoliaeth, *e.e. natur yn erbyn magwraeth; dehongliadau o dynged, ffawd ac iachawdwriaeth*

## Chwilio am ystyr

- **anfaterol/ysbrydol** – diffiniadau a dealltwriaeth traddodiadol a chyfoes o'r profiad crefyddol ac ysbrydolrwydd, *e.e. ydy crefydd yn weithredol neu'n oddefol?; profiad crefyddol trwy'r cyfryngau; safbwyntiau crefyddol a seicolegol yn ymwneud â chydwybod ymwybod*
- **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – effaith yr anfaterol/crefyddol/ysbrydol ar unigolion, cymunedau a chymdeithasau a sut mae'r effaith hon yn cael ei rhwystro/hybu gan gymdeithas seciwlar, *e.e. portreadu profiadau bron marw gwyrthiau yn y cyfryngau; gwleidyddiaeth; apathi/ymrwymiad eithafiaeth.*

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl bobl ifanc, ymarferwyr a chyfranogwyr eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r canllawiau hyn, gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| Gavin Craigen | Gwasanaeth Cefnogi'r Cwricwlwm, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy |
| Lynda Davies | Ysgol Uwchradd Pontypridd, Rhondda Cynon Taf |
| Rhian Davies | Ysgol Gyfun Brenin Harri'r VIII, Sir Fynyw |
| Heather Hansen | Ysgol Gatholig Esgob Fychan, Abertawe |
| Bethan James | Cwmni Cynnal, Gwynedd |
| Huw Jones | Ysgol Uwchradd Treffynnon, Sir y Fflint |
| Anne Makin | Ysgol Uwchradd Castell Alun, Sir y Fflint |
| Michael Morris | Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion |
| Julie Pugh | Ysgol Uwchradd Crughywel, Powys |
| Sarah Randell | Ysgol Brynhyfryd, Sir Ddinbych |
| Jason Rees | Ysgol Gyfun Sant Cenydd, Caerffili |
| Fenella Strange | Ysgol Tregib, Sir Gaerfyrddin |
| Rachel Thomas | Ysgol Uwchradd Cwm Rhymni, Caerffili |
| Martyn Williams | Ysgol Uwchradd Penfro, Sir Benfro. |

Athrawon consortiwm Cynnal o Ysgol Uwchradd Syr Hugh Owen (Gwynedd), Ysgol Uwchradd Tryfan (Gwynedd), Ysgol Syr Thomas Jones (Sir Fôn), Ysgol Gyfun Llangefni (Sir Fôn), Ysgol y Moelwyn (Gwynedd)

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r disgyblion a'r rhieni/warcheidwaid hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd â hawlfraint yn y canllawiau hyn:

Peter Turnley/CORBIS (tudalen 18).

**Sylwer**

Mae’r enghreifftiau a ddefnyddir yn yr astudiaethau achos yn awgrymiadau o’r math o weithgareddau y gellid eu gwneud. Yr ysgol sy’n gyfrifol am sicrhau addasrwydd adnoddau a cheisio unrhyw drwyddedau safle fydd eu hangen i ddefnyddio deunyddiau sydd ar gael yn fasnachol.

Mae’n arfer da wrth ddefnyddio deunyddiau a gynhyrchwyd yn fasnachol a allai beri tramgwydd i ofyn i rieni gwblhau ffurflen caniatâd rhieni.

Cyn ymweld ag unrhyw wefan gyda’r dysgwyr, mae’n hanfodol bod yr ymarferydd yn gwirio’r wefan ymlaen llaw. Dylid gwneud hyn er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth/deunyddiau y bwriedir eu defnyddio yn:

- cefnogi gwaith pobl ifanc
- yn berthnasol i’r gwaith a archwilir
- yn addas i bobl ifanc.

Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys neu ddibynadwyedd y gwefannau na’r cyrff a nodir. Ni ddylai’r ffaith eu bod yn cael eu cynnwys yma yn golygu ein bod yn eu cefnogi.